sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Gwasanaethau Cyfyngedig: cynigion i gynyddu'r sbectrwm sydd ar gael a symleiddio ein dull trwyddedu

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 14 Mawrth 2022

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 9 Mai 2022

# Cynnwys

## Adran


Trosolwg 1

1. Cefndir 3

2. Darparu mwy o amleddau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig 6

3. Cynigion i newid ein dull o drwyddedu gwasanaethau cyfyngedig 11

4. Cynigion i newid y broses ymgeisio am drwydded a’r cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig 15

5. ADSRSLs a gwasanaethau ystod fer sy’n datblygu 20

6. Cynigion i newid y drefn ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig 23


## Atodiad


A1. Y Fframwaith Rheoleiddio 27

A2. Y diweddaraf am dreialon darpariaeth gyfyngedig 30

A3. Newidiadau i drwydded safonol gwasanaeth cyfyngedig 33

A4. Diwygiadau arfaethedig i’n ffurflenni cais a’n nodiadau cyfarwyddyd 36

A5. Bwriad i adolygu Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) 37

A6. Cynigion i newid y drefn ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig 38

A7. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 41

A8. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad 42

A9. Cwestiynau’r ymgynghoriad 43

# Trosolwg

**Mae'r ddogfen hon yn nodi'r newidiadau y mae Ofcom yn bwriadu eu gwneud i'n dull o drwyddedu rhai gwasanaethau darlledu radio sy'n cael eu galw'n wasanaethau cyfyngedig.**

Mae gwasanaethau cyfyngedig yn wasanaethau radio sy'n gwasanaethu ardaloedd bach sy'n cael eu darlledu at ddibenion digwyddiadau neu mewn sefydliad neu leoliad penodol yn y DU.

Mae enghreifftiau o wasanaethau cyfyngedig yn cynnwys gwasanaethau radio penodol ar gyfer defodau crefyddol fel Ramadan; gwasanaethau radio ysbyty; gwasanaethau radio prifysgol; traciau sain ar gyfer ffilmiau yn-y-car a sylwebaeth ar gyfer digwyddiadau fel sioeau awyr.

Mae angen dwy drwydded ar gyfer gwasanaeth cyfyngedig sy'n cael eu rhoi gan Ofcom; (i) trwydded ddarlledu o dan Ddeddf Darlledu 1990 ("BA90") sy'n rheoleiddio cynnwys y gwasanaeth ("trwydded BA"); a (ii) thrwydded telegraffiaeth ddi-wifr o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 sy'n berthnasol i ddarlledu'r gwasanaeth ("trwydded WTA").

Mae gwasanaethau cyfyngedig yn cael eu darlledu'n bennaf ym mandiau darlledu AM a FM, ond nid oes bob amser gennym ddigon o amleddau FM i ateb y galw. Mae'r mater hwn wedi cael ei ddwysáu gan y newid yn y galw am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau cyfyngedig dros y blynyddoedd diwethaf. Ers dechrau pandemig Covid-19, mae llawer o ddiddordeb wedi bod mewn gwasanaethau cyfyngedig, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau yn-y-car, ac rydyn ni'n disgwyl y bydd mwy o alw yn ystod y blynyddoedd nesaf.

I helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, rydyn ni wedi datblygu dull newydd o gynllunio sbectrwm ar gyfer gwasanaethau sy'n ein galluogi i ganfod bylchau bach yn y defnydd o sbectrwm, rhwng y gwasanaethau darlledu radio presennol yn y band FM. Rydyn ni wedi datblygu dull o ganfod amleddau sydd ag ymyriant cyfyngedig yn y gwasanaeth y gallant ei ddarparu, ac felly'n anaddas ar gyfer dibenion darlledu eraill. Rydyn ni'n cyfeirio at y sbectrwm yn y bylchau hyn fel 'sbectrwm darpariaeth gyfyngedig'.

Mae'r sbectrwm darpariaeth gyfyngedig hwn yn ffordd i Ofcom liniaru'r prinder o ran y sbectrwm FM ar gyfer rhaglenni gwasanaeth cyfyngedig. Bydd yn cynyddu'r adnodd sbectrwm cyffredinol sydd ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig, a gallai ddarparu cyfleoedd i drwyddedu mwy o wasanaethau cyfyngedig yn y dyfodol.

Rydyn ni wedi cynnal profion technegol mewnol ar ddefnyddio sbectrwm darpariaeth gyfyngedig, a byddwn yn cynnal rhagor o brofion mewn treial parhaus dan amodau byd go iawn. Mae'r canlyniadau rydym wedi'u gweld hyd yma yn ein galluogi i symud ymlaen â'n cynigion i sicrhau bod y sbectrwm hwn ar gael ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig.

Rydym hefyd am symleiddio ein dull o drwyddedu'r gwasanaethau hyn a'i gwneud mor syml â phosibl i wneud cais am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau cyfyngedig. Mae crynodeb o'r prif newidiadau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud yn y blwch isod.

### Beth rydyn ni'n ei gynnig – yn gryno

- Dyrannu sbectrwm 'darpariaeth gyfyngedig' i wasanaethau cyfyngedig pŵer isel lle mae sbectrwm addas ar gael.
- Symud deiliaid presennol trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig pŵer isel i amledd darpariaeth gyfyngedig, lle mae un ar gael, wrth adnewyddu eu trwyddedau.
- Gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Offeryn Statudol, i wneud eithriad ar gyfer ADSRSLs a rhai gwasanaethau tebyg sy'n dod i'r amlwg o'r gofyniad i ddal trwydded BA, yn enwedig os ydynt wedi'u heithrio rhag dal trwydded dan ddeddf telegraffiaeth ddi-wifr oherwydd y pwerau isel iawn sy'n cael eu defnyddio.
- Symleiddio'r drefn ffioedd ar gyfer gwasanaeth cyfyngedig.
- Rydym hefyd yn cynnig gwneud amryw o newidiadau gweinyddol i'r broses ymgeisio a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig ac i dempled safonol y drwydded BA ar gyfer gwasanaeth cyfyngedig.

## Y camau nesaf

Rydyn ni'n gwahodd sylwadau ar y newidiadau arfaethedig erbyn 5pm ar 9 Mai 2022. Yn amodol ar yr amser sydd ei angen i ystyried yr holl ymatebion a ddaw i law yn llawn, ein nod yw cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniadau yn ystod haf 2022.

Dim ond crynodeb manwl wedi'i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Mae'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.

# 1. Cefndir

Mae'r adran hon yn egluro beth yw gwasanaethau cyfyngedig a'r trwyddedau rydyn ni'n eu rhoi ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig ar hyn o bryd. Mae'n rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch pam ein bod wedi datblygu dull cynllunio sbectrwm newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn a'r cyfleoedd newydd y mae hyn yn eu darparu ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig.

## Beth yw gwasanaethau cyfyngedig?

1.1 Gwasanaethau radio yw gwasanaethau cyfyngedig sy'n cael eu darlledu at ddibenion digwyddiad (er enghraifft darparu sylwebaeth mewn sioe awyr) neu mewn sefydliad neu leoliad penodol (er enghraifft gwasanaeth radio ysbyty).

## Trwyddedu gwasanaethau cyfyngedig

1.2 Mae angen dwy drwydded wahanol ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig – trwydded BA, sy'n rhoi awdurdod i ddarlledu'r gwasanaeth, a thrwydded WTA sy'n rhoi awdurdod i ddefnyddio'r sbectrwm a ddefnyddir i drosglwyddo'r gwasanaeth. Rydyn ni'n defnyddio'r acronym 'RSLs' i gyfeirio at y gwasanaethau cyfyngedig rydyn ni'n eu trwyddedu.

1.3 Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cyhoeddi trwyddedau BA a WTA ar gyfer tri math o wasanaethau cyfyngedig:

a) **Gwasanaethau cyfyngedig tymor byr ('SRSLs')**: mae'r trwyddedau hyn yn cael eu dyfarnu ar gyfer darlledu digwyddiad penodol. Maent yn cael eu rhoi am gyfnod byr (hyd at 28 diwrnod fel arfer) ar gyfer darlledu yn y band darlledu FM. Gellir eu caniatáu hefyd mewn cyfres o ddigwyddiadau. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y trwyddedau'n caniatáu 28 diwrnod o ddarllediadau heb fod yn olynol dros gyfnod estynedig (6 neu 12 mis fel arfer). Mae hyn yn cael ei alw'n SRSL cyfnod estynedig.

b) **Gwasanaethau cyfyngedig tymor hir ('LRSLs')**: mae'r trwyddedau hyn yn cael eu dyfarnu ar gyfer gwasanaeth radio sy'n darlledu ar amleddau AM neu FM mewn lleoliad penodol neu i sefydliad penodol (fel ysbyty), am gyfnod o un i bum mlynedd.

c) **Gwasanaethau cyfyngedig system ddosbarthu sain ('ADSRSLs')**: mae'r trwyddedau hyn yn cael eu rhoi ar gyfer darlledu gwasanaeth sain ar safle penodol ar amleddau sydd y tu allan i'r bandiau darlledu FM ac AM confensiynol. Maen nhw'n cael eu rhoi am gyfnod o bum mlynedd ar gyfer digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar y safle, ac mae'r rhai sy'n bresennol yn gwrando ar y gwasanaeth drwy dderbynyddion wedi'u teilwra sy'n cael eu gwerthu neu eu benthyg gan y gweithredwr. Fel arfer, maen nhw'n

cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau fel sylwebaeth chwaraeon mewn stadia chwaraeon.[1]

## Cynllunio sbectrwm ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig

1.4 Mae pob RSL yn defnyddio sbectrwm i ddarlledu. Sbectrwm yw'r tonnau awyr – neu'r bandiau o amleddau radio – mae unigolion a sefydliadau'n cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddibenion, gan gynnwys cyfathrebu symudol a darlledu. Mae'r rhain yn cynnwys bandiau darlledu AM a FM.

1.5 Mae sbectrwm yn adnodd prin y mae pen draw iddo, ac mae'r galw am y sbectrwm a ddefnyddir ar gyfer darlledu yn aml yn fwy na'r hyn y gellir ei gyflenwi. Felly, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ddarparu SRSLs a LRSLs yn y band amledd FM gorlawn, mae Ofcom yn cadw rhan benodol o'r sbectrwm radio FM (87.7 - 87.9 MHz) i'w defnyddio gan SRSL a LRSL.[2]

1.6 Rydyn ni'n defnyddio'r amleddau hyn ar gyfer SRSLs yn bennaf. Os byddwn yn dyrannu amledd ar gyfer LRSL, mae hyn yn golygu yn gyffredinol na allwn drwyddedu SRSLs yn yr ardal, oherwydd y gallai'r gwasanaethau achosi ymyriant i'w gilydd. Felly, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r sbectrwm sydd ar gael, ein dull cyffredinol yw ystyried ceisiadau am drwyddedau LRSL ar FM mewn ardaloedd lle nad oes gweithgarwch SRSL wedi bod gerllaw yn ystod y tair blynedd diwethaf.

1.7 Ar gyfer LRSLs yn benodol, mae hyn yn golygu nad oes bob amser digon o sbectrwm FM ar gael mewn ardal benodol i ateb y galw. O ganlyniad, efallai na fydd rhai o'r rheini sydd â diddordeb mewn darparu LRSL wedi gallu sicrhau trwydded ar FM, neu efallai mai dim ond am gyfnod cyfyngedig y byddant wedi gallu darparu SRSL. Mae hyn yn golygu y gallai cymunedau gyda sefydliadau o'r fath, fel ysbytai, prifysgolion neu ganolfannau milwrol fod wedi cael eu tan-wasanaethu gan wasanaethau radio penodol ar FM.

1.8 Rydyn ni hefyd wedi gweld newid yn y galw am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau cyfyngedig dros y blynyddoedd diwethaf. Ers dechrau pandemig Covid-19, mae llawer o ddiddordeb wedi bod mewn trwyddedau i ddarparu gwasanaethau cyfyngedig, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau yn-y-car[3], ac rydyn ni'n disgwyl y bydd mwy o ddiddordeb mewn amleddau sbectrwm yn ystod y blynyddoedd nesaf, a mwy o alw yn sgil hynny.

1.9 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn, rydyn ni wedi datblygu dull newydd o gynllunio sbectrwm yn y band darlledu FM sy'n ein galluogi i ganfod bylchau bach yn y defnydd o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau newydd, ymhlith y gwasanaethau darlledu radio presennol yn y band FM. Rydyn ni'n cyfeirio at y sbectrwm yn y bylchau hyn fel 'sbectrwm darpariaeth gyfyngedig'. Rydyn ni'n cyfeirio at y dull rydyn ni'n ei ddefnyddio i

---

[1] Gallwch ddarllen mwy am y gwahanol fathau o Drwyddedau Gwasanaeth Cyfyngedig yn y canllawiau ar ein gwefan

[2] Mae'r galw am amleddau FM yn uwch nag ar gyfer amleddau AM, gan fod FM yn cynnig sain o ansawdd uwch a gwell imiwnedd i ymyriant. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gwrando ar radio analog bellach yn defnyddio FM, ac mae FM yn cynnig trefniadau trosglwyddo rhatach a symlach nag AM.

[3] Mae digwyddiadau yn-y-car yn ddigwyddiadau awyr agored fel ffilmiau yn-y-car sy'n defnyddio signal radio FM pŵer isel i ddarlledu trac sain y ffilm neu leisiau'r siaradwyr yn y digwyddiad i radios FM yng ngheir y rhai sy'n bresennol

nodi sbectrwm o'r fath a chynllunio i'w ddefnyddio fel 'dull darpariaeth gyfyngedig'. Gallwch ddarllen mwy am y dull darpariaeth gyfyngedig a'r sbectrwm darpariaeth gyfyngedig yn adran dau isod, ac yn y Gwahoddiad i Ymgeisio am y treial darpariaeth gyfyngedig. Rydyn ni hefyd wedi datblygu teclyn meddalwedd lled-awtomatig sy'n ein galluogi i nodi'r amleddau darpariaeth gyfyngedig hyn yn gyflym. Felly, nid yw nodi'r amleddau hyn yn effeithio'n sylweddol ar yr ymdrech y gallwn ei rhoi i'n gwaith cynllunio sbectrwm ar gyfer gwasanaethau darlledu confensiynol.

1.10 Gellir defnyddio sbectrwm darpariaeth gyfyngedig mewn lleoliadau penodol, ond mae'n agored i ymyriant gan orsafoedd radio presennol. Mae hyn yn golygu bod y ddarpariaeth y gellir ei chyflawni heb ymyriant niweidiol yn gyfyngedig: mae modd ei defnyddio ar bŵer isel (heb fod yn fwy na phŵer pelydru 2 wat fel rheol) dros ystod fer gyda radiws o hyd at 1km. Felly, mae'n addas iawn i'w ddefnyddio ar gyfer RSLs, yn enwedig LRSLs. Oherwydd y ddarpariaeth gyfyngedig y gellir ei chael drwy ddefnyddio'r sbectrwm hwn, nid yw'n addas ar gyfer darllediadau radio cenedlaethol, lleol a chymunedol.

1.11 Cynhaliom brofion technegol mewnol cychwynnol ar y dull darpariaeth gyfyngedig ac roedd y canlyniadau'n addawol, ac ym mis Mawrth 2021 gwahoddwyd ceisiadau i gymryd rhan mewn treial technegol ehangach. Nod y treial yw profi'r defnydd o sbectrwm darpariaeth gyfyngedig mewn amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd yn y byd go iawn i benderfynu a yw'r ddarpariaeth a'r ymyriant sy'n gysylltiedig â'r sbectrwm darpariaeth gyfyngedig yn cyd-fynd â'n disgwyliadau. Dylai canlyniadau'r treial ddweud wrthym a allwn sicrhau bod y sbectrwm ar gael drwy'r dull darpariaeth gyfyngedig i gynyddu'r cyflenwad o sbectrwm sydd ar gael ar gyfer RSLs.

1.12 Dechreuodd y treial ym mis Medi 2021. Yn ystod y tri mis cyntaf, roedd yn rhaid i'r rheini a oedd yn treialu gyflwyno adroddiadau manwl a rheolaidd i Ofcom am unrhyw heriau yn y derbyniad a materion ymyriant. Ar ôl hyn, mae'n rhaid i'r rheini sy'n treialu roi gwybod am unrhyw broblemau ymyriant newydd os byddant yn codi.

1.13 Mae'r treial wedi dechrau ers chwe mis bellach, ac mae'r canlyniadau rydyn ni wedi'u gweld wedi cadarnhau i ni fod y ddarpariaeth a'r ymyriant sy'n gysylltiedig â'r sbectrwm darpariaeth gyfyngedig yn cyd-fynd â'n disgwyliadau. Ar sail canlyniadau cychwynnol y treial, rydyn ni'n bwriadu defnyddio'r dull cynllunio darpariaeth gyfyngedig yn ehangach a symud ymlaen â'n cynigion i symleiddio ein dull o drwyddedu RSLs.[4]

1.14 Rydyn ni'n ystyried y bydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn hyrwyddo ymhellach y defnydd gorau o sbectrwm a chaniatáu i fwy o wasanaethau ddarlledu, gan helpu i sicrhau bod ystod eang o wasanaethau darlledu ar gael drwy'r DU sydd – wrth eu hystyried gyda'i gilydd – o ansawdd uchel ac sydd wedi cael eu cynllunio i apelio at amrywiaeth o chwaethau a diddordebau.

1.15 Mae'r ddogfen hon, fel cyfanwaith, a'r dadansoddiad sy'n cael ei gyflwyno ynddi, yn gyfystyr ag asesiad o'r effaith at ddibenion adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (CA03).

[4] Gallwch ddarllen y newyddion manwl diweddaraf am gynnydd y treialon yn Atodiad 2

# 2. Darparu mwy o amleddau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig

Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am amleddau darlledu cyfyngedig a'r dull darpariaeth gyfyngedig.

## Y dull darpariaeth gyfyngedig: sicrhau bod adnoddau amledd ychwanegol ar gael ar gyfer RSLs

2.1 Y prif newid technegol o ran sut rydyn ni'n bwriadu cael RSLs yw y byddwn, yn y dyfodol, yn ceisio dyrannu sbectrwm darpariaeth gyfyngedig lle mae sbectrwm o'r fath ar gael ac yn addas ar gyfer gwasanaeth arfaethedig ymgeisydd. Mae argaeledd sbectrwm darpariaeth gyfyngedig yn ychwanegol at yr adnoddau amledd FM ac AM sydd eisoes ar gael i'w defnyddio gan RSLs.

2.2 Bydd sbectrwm darpariaeth gyfyngedig yn addas ar gyfer ymgeiswyr am drwyddedau RSL sy'n dymuno gwasanaethu ardal ddaearyddol fach (yn gyffredinol nid yn fwy nag ardal sydd â radiws o 1km) ar FM. Fel arfer, bydd uchafswm pŵer gwasanaeth sy'n defnyddio sbectrwm darpariaeth gyfyngedig rhwng 300 miliwat ac yn ddim mwy na 2 wat.[5] Rydyn ni'n disgwyl y bydd y rhan fwyaf fel arfer yn gweithredu ar 300mW lle mae'r signal yn cael ei ddarparu'n bennaf i leoliad yn yr awyr agored, neu ar 1 wat lle mae'n gwasanaethu adeiladau. Isod, rydyn ni'n nodi'r rhesymau pam y byddwn yn dyrannu amleddau darpariaeth gyfyngedig.

2.3 Ar gyfer y rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau SRSL a LRSL am gyfnod estynedig, rydyn ni'n cynnig y byddwn ni'n rhoi amledd darpariaeth gyfyngedig newydd iddynt os bydd un ar gael pan fyddant yn adnewyddu eu trwydded. Gallwch ddarllen mwy am y cynigion hyn yn adran tri isod.

### Cynllunio amledd FM a gorgrynhoad ar y sbectrwm

2.4 Mae'r band sbectrwm FM, sy'n cwmpasu'r ystod amledd o ychydig o dan 88 MHz i 108 MHz, eisoes yn cael ei ddefnyddio'n ddwys gan lawer o orsafoedd radio ar draws y DU ac mewn gwledydd cyfagos. Yn y DU, mae sbectrwm yn y band FM yn cefnogi gorsafoedd radio masnachol (rhai cenedlaethol a rhai lleol), gorsafoedd cenedlaethol, gorsafoedd lleol ac i'r cenhedloedd y BBC, gorsafoedd radio cymunedol a RSLs.

2.5 Oherwydd y defnydd dwys hwn, mae angen i wahanol orsafoedd ailddefnyddio amleddau FM unigol sawl gwaith ar draws y DU. Ar yr un pryd, ni ddylai gorsafoedd sy'n defnyddio'r un amledd (neu amledd cyfagos) achosi ymyriant yn ardaloedd darpariaeth ei gilydd. Er mwyn cydbwyso'r gofynion hyn a allai wrthdaro, rhaid cynllunio'r defnydd o sbectrwm FM

[5] Pŵer Rheiddiol Effeithiol. Os defnyddir polareiddio cymysg, gall y trwyddedai drosglwyddo hyd at yr uchafswm pŵer a nodir yn eu trwydded ym mhob plân a bydd hyn fel arfer o fewn yr ystod h.y. 300mW i 2W i bob plân.

yn ofalus er mwyn cynyddu nifer y gorsafoedd sydd ar gael (a'u hardaloedd gwasanaeth). Gellir lleihau ymyriant rhwng gorsafoedd drwy sicrhau bod eu mastiau trosglwyddo wedi'u lleoli'n ddigon pell oddi wrth ei gilydd, eu bod yn cael eu 'sgrinio' yn ffisegol gan dirwedd yn y canol, neu drwy ddefnyddio antena trawsyrru sy'n lleihau cryfder y signalau sy'n cael eu trawsyrru tuag at ardal ddarlledu gorsaf arall.

2.6 Er bod y dull hwn o gynllunio sbectrwm yn golygu bod gwrandawyr yn y DU yn gallu cael amrywiaeth o orsafoedd FM dibynadwy ac o ansawdd da, mae'n aml yn golygu mai dim ond ychydig o amleddau sbâr sydd ar gael – a dim o gwbl weithiau – i wasanaethau newydd weithredu o fewn y band FM.

## Y dull darpariaeth gyfyngedig

2.7 Mae'r dull cynllunio darpariaeth gyfyngedig yn rhoi cyfleoedd newydd i ddyrannu amleddau FM i wasanaethau radio sy'n gwasanaethu ardaloedd daearyddol bach. Mae'n ddull cynllunio amledd sy'n ein galluogi i nodi'r hyn rydym yn cyfeirio ato fel sbectrwm darpariaeth gyfyngedig ar amleddau sy'n cael eu rhyngddalennu â gwasanaethau darlledu yn y band FM. Mae hwn yn sbectrwm y gellir ei ddefnyddio mewn lleoliadau penodol ond a fyddai'n agored i lefelau o ymyriant a fyddai'n cyfyngu ar y ddarpariaeth. Nid yw defnyddio'r sbectrwm hwn yn cyfyngu ar argaeledd sbectrwm ar gyfer gwasanaethau radio darlledu confensiynol.

2.8 Mae ein dull o gynllunio darpariaeth ar gyfer gwasanaethau Radio Masnachol a Chymunedol yn seiliedig ar ddau faen prawf technegol, ac mae'n rhaid cyflawni'r ddau er mwyn i leoliad penodol gael ei ystyried yn un sy'n cael ei wasanaethu gan drosglwyddydd penodol. Yn gyntaf, dylai'r trosglwyddydd ddarparu lefel sylfaenol benodol o gryfder signal (neu 'cryfder maes') i bob lleoliad yn yr ardal ddarlledu. Gelwir hyn yn gryfder maes 'a geisir'. Yn ail, rhaid i gryfder y maes a geisir mewn lleoliad penodol hefyd fod yn gryfach, yn ôl swm penodol (a elwir yn gymhareb diogelu), na chryfder maes cyfanredol signalau a allai achosi ymyriad ar drosglwyddyddion eraill sy'n defnyddio'r un amleddau (neu amleddau tebyg). Mae'r cyfyngiadau ar gyfer y ddau faen prawf wedi'u nodi yn ein Polisi darlledu a chynllunio ar gyfer gwasanaethau darlledu radio analog. Gan fod ein dull safonol yn seiliedig ar ddefnyddio'r cryfderau maes hyn a ddiffiniwyd a meini prawf diogelu i bennu hyd a lled ardal wasanaethu, rydym wedi ein cyfyngu i ddewis amleddau lle mae lefelau cymharol isel o ymyriant gan drosglwyddyddion mewn mannau eraill.[6]

2.9 Nid yw'r dull darpariaeth gyfyngedig yn defnyddio cryfder maes un gwerth i ddiffinio darpariaeth gwasanaeth, sy'n golygu nad ydym yn cael ein cyfyngu gan ddefnyddio amleddau sy'n profi lefelau isel o ymyriant yn unig. Yn hytrach, gallwn ystyried defnyddio amleddau lle mae mwy o ymyriant, a chynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer RSLs yn seiliedig ar ble bydd digon o signal gan drosglwyddyddion yr RSL i oresgyn unrhyw ymyriant o'r tu allan.

---

[6] Er enghraifft, mae darpariaeth gwasanaeth radio masnachol stereo yn cael ei ddiffinio gan yr ardaloedd lle mae cryfder y maes yn hafal i neu'n uwch na 54dBμV/m 10m yn uwch na'r ddaear, ac mae unrhyw ymyriant gan wasanaethau eraill sy'n defnyddio'r un amledd mewn mannau eraill o leiaf 45dB yn llai.

2.10 Felly, mae'r dull darpariaeth gyfyngedig yn caniatáu i ni ganfod bylchau bach yn y defnydd o sbectrwm, sy'n addas ar gyfer targedu ardaloedd darpariaeth bach. Er na fydd yr amleddau hyn ar gael ar sail darpariaeth genedlaethol, ranbarthol na lleol, byddant ar gael i'w defnyddio mewn ardaloedd bach sydd fel arfer hyd at uchafswm radiws o 1km, a byddant yn galluogi gwneud defnydd mwy dwys o sbectrwm radio FM nag ar hyn o bryd.

2.11 Yn bwysig iawn, oherwydd y bydd gwasanaethau darlledu cyfyngedig yn defnyddio pwerau isel (rhwng 300 miliwat ac 1 wat fel arfer), nid yw'r gwasanaeth darpariaeth gyfyngedig ei hun yn lleihau - nac yn achosi ymyriant i - ardaloedd darpariaeth gwasanaethau radio FM eraill.

2.12 Er mwyn profi dilysrwydd ymarferol defnyddio sbectrwm darpariaeth gyfyngedig ar gyfer RSLs pŵer isel, fe wnaeth Ofcom drwyddedu cyfres o wasanaethau treialu 'yn y byd go iawn' yn 2021. Mae Atodiad 2 yn cynnwys gwybodaeth am y treialon hyn, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau'r treial hyd yma.

## Ein dull gweithredu cyffredinol arfaethedig ar gyfer defnyddio sbectrwm RSL

2.13 O ystyried y lefelau pŵer isel y gall y sbectrwm darpariaeth gyfyngedig eu cynnal, rydyn ni'n rhagweld y bydd y sbectrwm yn arbennig o addas ar gyfer RSLs sy'n gwasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall. Ar ben hynny, efallai y bydd sbectrwm darpariaeth gyfyngedig yn cael ei ddyrannu i RSLs sy'n cael eu darparu at ddibenion digwyddiadau lle mae angen ardaloedd darpariaeth bach a lefelau pŵer trosglwyddo isel (e.e. digwyddiadau ffilmiau yn-y-car).

2.14 Bydd gwasanaethau darpariaeth gyfyngedig yn defnyddio amleddau yn yr ystod o 88.0 MHz i 107.9 MHz gan gynnwys yr amleddau hynny. Er mwyn lleihau'r risg o ymyriant i wasanaethau radio eraill, ni fydd lefelau pŵer fel arfer yn fwy na 2 wat o Bŵer Pelydru Effeithiol ('ERP') – a bydd fel arfer rhwng 300 miliwat ac 1 wat. Ni fydd uchder uchaf yr antena uwchben lefel y ddaear yn fwy na 20m fel arfer.

2.15 Er bod trwyddedeion LRSL presennol wedi'u cyfyngu i weithredu ar gyflymder o 50 miliwat ERP gydag antena o ddim uwch na 10m, rydyn ni'n ymwybodol y gallai fod diffygion o ran darpariaeth, ac anawsterau o ran aros o fewn y cyfyngiadau hyn, yn enwedig o ran adeiladau masnachol lle mae rhai gwasanaethau (fel radio ysbyty) yn gweithredu. Felly, rydym yn cynyddu'r pŵer sydd ar gael ac ar ba uchder y gellir gosod antena. O'n gwaith modelu ar gyfer gwasanaethau darpariaeth gyfyngedig a'n treialon, nid ydym yn disgwyl i'r newidiadau hyn arwain at unrhyw gynnydd sylweddol mewn ymyriant i wasanaethau radio eraill ar yr amod bod ein cyfyngiadau cynllunio arferol yn cael eu bodloni fel y nodir yn ein polisi darpariaeth analog.

2.16 Rydyn ni hefyd yn bwriadu parhau i ddyrannu 87.7 - 87.9 MHz i RSLs: bydd yr amleddau hyn yn dal i gael eu cadw ar gael i'w defnyddio gan RSLs yn unig,[7] a byddant fel arfer yn cael eu defnyddio ar gyfer RSLs sy'n gwasanaethu digwyddiadau sy'n gweithredu ar lefelau pŵer uwch (hyd at 25 wat ERP, neu 10 wat mewn ardaloedd trefol) nad oes modd i

[7] O fewn Prydain Fawr: mae trefniant gwahanol yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon

amleddau gwasanaeth cyfyngedig eu cefnogi. Pan fyddwn yn parhau i drwyddedu RSLs ar yr amleddau hyn sy'n cael eu darlledu i sefydliad neu leoliadau diffiniedig eraill, byddwn fel arfer yn ceisio cyfyngu'r pŵer i 50 MW ERP er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o sbectrwm ar gael ar gyfer RSLs sy'n gwasanaethu digwyddiadau.

2.17 Er y dylai defnyddio'r dull darpariaeth gyfyngedig ein galluogi i nodi pocedi bach o sbectrwm FM ledled y DU y gellid eu defnyddio ar gyfer RSLs, ac y dylai felly gynyddu argaeledd sbectrwm ar gyfer y gwasanaethau hyn, ni fydd defnyddio'r dull cynllunio hwn o reidrwydd yn cynyddu argaeledd sbectrwm ym mhob ardal ddaearyddol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd lle mae'r defnydd o sbectrwm yn orlawn, fel canolfannau trefol mawr. Ni fydd yn ddefnyddiol chwaith i Radio Cymunedol neu Radio Masnachol, nac i RSLs sydd eisiau ardaloedd darlledu ehangach ar gyfer digwyddiadau (e.e. y rheini sy'n dymuno gwasanaethu rhan sylweddol o dref neu ddinas) oherwydd y ddarpariaeth gyfyngedig y gellir ei chyflawni.

2.18 Mewn achosion lle nad oes sbectrwm darpariaeth gyfyngedig ar gael ar gyfer gwasanaeth cyfyngedig sy'n dymuno gwasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig, byddwn yn ceisio dyrannu amledd amgen o 87.7 - 87.9 MHz: bydd hyn yn amodol ar argaeledd amledd, gan gynnwys gofyniad na fu unrhyw geisiadau diweddar am drwydded RSL i wasanaethu digwyddiad yn yr ardal honno. Mae rhagor o fanylion am ein cynigion sy'n ymwneud â hyn ar gael yn adran tri'r ddogfen hon.

## Polareiddio cymysg

2.19 Caiff signalau radio eu trosglwyddo mewn un o nifer o 'bolareiddiadau' posibl:[8] math a/neu gyfeiriad yr antena/antenau a ddefnyddir sy'n pennu polareiddiad y signalau. Mae polareiddio fertigol, polareiddio llorweddol a pholareiddio 'cymysg' (cyfuniad o bolareiddiadau fertigol a llorweddol) i gyd wedi cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau radio FM yn y DU.

2.20 Mae gan bolareiddiadau gwahanol nodweddion technegol – er enghraifft, mae'n haws derbyn signalau FM wedi'u polareiddio'n fertigol neu'n gymysg ar systemau erialau ceir na signalau wedi'u polareiddio'n llorweddol. Efallai y bydd yn haws derbyn signalau FM llorweddol ar erialau FM ar y to. Mae'r rhan fwyaf o drosglwyddyddion FM pŵer uchel yn y DU yn defnyddio polareiddio cymysg ar hyn o bryd.

2.21 Rydym yn dweud yn ein canllawiau presennol y dylai darparwyr RSL ddefnyddio polareiddio fertigol yn unig. Er mwyn cynyddu'r hyblygrwydd i weithredwyr RSL, rydyn ni'n dileu'r gofyniad hwn. Yn hytrach, bydd ymgeiswyr yn cael cyfle i ofyn am y gallu i drawsyrru signalau polareiddio cymysg os ydynt yn dymuno.

2.22 Os bydd gweithredwr yn dymuno mabwysiadu polareiddio cymysg, bydd yn cael pelydru'r pŵer a nodir yn eu trwydded WTA ym mhob plân. Er enghraifft, gallai gorsaf sydd â

[8] Yn dechnegol, mae polareiddio yn cyfeirio at gyfeiriad cydran maes trydanol y don radio.

thrwydded o 300mW weithredu gyda 300mW wedi'i belydru yn y plân fertigol, a 300mW yn y plân llorweddol.

2.23 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fyddai RSLs sy'n defnyddio polareiddio cymysg ar amleddau darpariaeth gyfyngedig fel arfer yn cael eu trwyddedu i weithredu ar fwy na 2 wat fesul plân, ac ni fyddai RSLs sy'n defnyddio polareiddio cymysg ar 87.7 – 87.9 MHz yn cael eu trwyddedu i weithredu ar fwy na 25 wat fesul plân.

### Y cwestiwn ymgynghori

Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion Ofcom i ddarparu mwy o amleddau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig?

# 3. Cynigion i newid ein dull o drwyddedu gwasanaethau cyfyngedig

Mae'r adran hon yn nodi sut rydym yn bwriadu mynd ati i drwyddedu gwasanaethau cyfyngedig. Mae'n egluro'r newidiadau rydyn ni'n cynnig eu gwneud i'r drwydded BA a gyhoeddir ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig, a'n bod ni'n cynnig amrywio trwyddedau BA trwyddedeion LRSL ac SRSL presennol am gyfnod estynedig er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae hefyd yn rhoi manylion ein cynnig i symud rhai trwyddedeion pŵer isel i amleddau cwmpas cyfyngedig newydd wrth adnewyddu eu trwyddedau.

## Diweddaru trwydded y Ddeddf Darlledu ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig

3.1 Fel rydyn ni wedi'i nodi yn adran un, rydyn ni'n trwyddedu tri math o Drwydded Gwasanaeth Cyfyngedig ar hyn o bryd. Rydyn ni'n cydnabod y gall fod yn gymhleth i ddeall y gwahanol fathau hyn, yn enwedig i'r rheini nad ydynt wedi gwneud hynny o'r blaen. Bydd y math mwyaf priodol o drwyddedau i ymgeiswyr yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau fel am ba hyd y maen nhw eisiau ddarlledu, pa bryd y maen nhw am ddarlledu, ac ymhle. Lle bo modd, rydyn ni am symleiddio ein dull o drwyddedu'r gwasanaethau hyn.

3.2 Felly, rydym yn cynnig disodli'r mathau presennol o drwyddedau SRSL a LSRSL gyda dim ond un math o drwydded – trwydded gwasanaeth cyfyngedig. Bydd y drwydded newydd yn cyfuno'r trwyddedau BA SRSL a SSRSL a byddant yn cael eu dyfarnu ar gyfer:

- Gwasanaethau cyfyngedig sy'n cael eu darlledu at ddibenion digwyddiad penodol;
- Gwasanaethau cyfyngedig sy'n cael eu darlledu i sefydliad penodol neu leoliad diffiniedig arall yn y DU.

3.3 Dim ond ar gyfer gwasanaeth sy'n perthyn i un o'r categorïau hyn y mae trwydded gwasanaeth cyfyngedig ar gael.  Nid ydynt yn briodol ar gyfer darparu gwasanaeth radio lleol hirdymor i gymuned neu boblogaeth breswyl barhaol, ac ni fyddant yn cael eu rhoi ar gyfer hynny.

3.4 Rydym yn bwriadu gwneud y newidiadau hyn i'r trwyddedau rydym yn eu rhoi ar gyfer RSLs yn ail hanner eleni pan fyddwn yn cyhoeddi ein datganiad. Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r drwydded Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr rydyn ni'n ei rhoi i RSLs.

3.5 Bydd trwyddedeion newydd yn cael y drwydded BA gyfunol newydd hon os bydd eu ceisiadau'n llwyddiannus, ynghyd â thrwydded Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i roi awdurdod i ddefnyddio'r sbectrwm ar gyfer y gwasanaeth.

3.6 Ar gyfer y rheini sydd â thrwyddedau ar gyfer LRSL neu SRSL am gyfnod estynedig, pan fyddwn yn cyhoeddi ein datganiad, byddwn yn amrywio eu trwyddedau BA i drwydded BA

gyfunol gyda'r amodau wedi'u diweddaru ar gyfer gweddill eu tymor.[9] Rydyn ni o'r farn na fydd ein cynnig cyfuno yn cael unrhyw effeithiau sylweddol ar yr hawliau a'r rhwymedigaethau sydd gan drwyddedeion o dan eu trwyddedau presennol. Ni fyddwn yn amrywio'r trwyddedau presennol ar gyfer SRSLs presennol, oherwydd eu natur tymor byr, ond bydd pob trwydded BA newydd yn cael ei chyhoeddi ar sail templed newydd y drwydded.

3.7 Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau arfaethedig i'r drwydded BA safonol ar gael yn Atodiad 3 ac mae testun llawn y drwydded BA safonol arfaethedig ar gael ar y dudalen we ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

3.8 Dydyn ni ddim yn cynnig gwneud unrhyw newidiadau i'r trwyddedau BA na WTA a gyhoeddir ar gyfer ADSRSLs gan ein bod yn cynnig ceisio gwneud newidiadau ehangach i reoleiddio'r gwasanaethau hyn, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn adran pump.

## Symud trwyddedeion presennol i amleddau darpariaeth gyfyngedig

### Trwyddedeion SRSL am gyfnod estynedig

3.9 Mae SRSLs am gyfnod estynedig yn RSLs sydd wedi'u trwyddedu i ddarlledu am hyd at 28 diwrnod o ddarllediadau heb fod yn olynol o'r un safle, o fewn cyfnod o ddeuddeg mis. Fel arfer, defnyddir y rhain i roi sylw i ddigwyddiadau chwaraeon, fel cynnig sylwebaeth ar gylchoedd rasio moduron lle cynhelir digwyddiadau ar gyfres o benwythnosau dros gyfnod o sawl mis. Fel arfer, byddwn yn derbyn ceisiadau rheolaidd ar gyfer yr un digwyddiadau gan yr un darparwyr gwasanaeth bob blwyddyn. Rhoddir un pâr o drwyddedau BA ac WTA ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau, sy'n awdurdodi hyd at 28 diwrnod o ddarlledu yn ystod cyfnod y drwydded.

3.10 Gan ddefnyddio'r dull darpariaeth gyfyngedig newydd, neu ein dull cynllunio safonol mewn rhai achosion, rydyn ni wedi cwblhau dadansoddiad cychwynnol o'r SRSLs estynedig rydyn ni'n eu trwyddedu ar hyn o bryd. Rydyn ni wedi nodi amleddau addas ar gyfer pob gwasanaeth sy'n cwmpasu'r safle sy'n cael ei wasanaethu. O'r herwydd, os byddwn yn cael cais arall am drwydded mewn perthynas â'r SRSLs cyfnod estynedig presennol hyn, byddem yn disgwyl dyrannu amledd newydd iddynt.

3.11 Rydyn ni hefyd yn cynnig newid y sail ar gyfer trwyddedu'r math hwn o wasanaeth. Yn hytrach na rhoi trwydded i ddarparu RSL mewn perthynas â chyfres o ddigwyddiadau, bydd y drwydded yn caniatáu darlledu gwasanaeth cyfyngedig i wasanaethu sefydliad a enwir neu leoliad diffiniedig arall, er enghraifft, cylch rasio moduron.

3.12 Rydyn ni'n credu y bydd y newid hwn yn arwain at y manteision canlynol:

[9] Rydyn ni'n cynnig gwneud newidiadau ehangach i'r trwyddedau rydyn ni'n eu dyfarnu ar gyfer SRSLs am gyfnod estynedig, fel y nodir ym mharagraffau 4.2 a 4.3 isod. Ni fydd y rhain ymysg yr amrywiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i drwyddedau presennol ar gyfer trwyddedau cyfnod estynedig.

- bydd modd dal y drwydded am gyfnod o hyd at bum mlynedd, yn hytrach na bod yn rhaid i drwyddedeion orfod gwneud cais (a thalu'r ffi ymgeisio gysylltiedig) am drwydded am bob un o'r 28 diwrnod o ddarlledu;
- bydd y drwydded yn awdurdodi darllediadau am gynifer o ddiwrnodau ag y mae'r trwyddedai'n dymuno yn ystod ei gyfnod, yn hytrach na chael ei gyfyngu i 28 diwrnod o ddarlledu;
- ni fydd angen i'r trwyddedai ofyn am gymeradwyaeth gan Ofcom i amrywio'r drwydded os bydd eu diwrnodau darlledu'n newid o fewn cyfnod y drwydded o'r hyn roeddent wedi'i fwriadu'n wreiddiol a'i hysbysu i Ofcom;
- bydd gan y trwyddedai fynediad parhaus i amledd penodol dros gyfnod ei drwydded, gan na fyddai unrhyw ymgeisydd arall yn cael yr amledd darlledu cyfyngedig ar gyfer eu safle;[10]
- bydd y trwyddedai yn talu ffioedd trwydded is o dan ein newidiadau arfaethedig i'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig (gweler adran chwech am fanylion llawn).

3.13 Rydym yn egluro yn y nodiadau cyfarwyddyd SRSL presennol na ddylai ymgeiswyr dybio, os ydynt wedi cael amledd penodol yn y gorffennol, y byddant yn ei gael eto a bod y dyraniad amledd yn ôl disgresiwn Ofcom. Rydyn ni'n deall ac wedi ystyried y bydd rhai trwyddedeion SRSL sydd eisoes yn dal trwyddedau am gyfnod estynedig wedi paratoi deunyddiau hyrwyddo ac wedi prynu offer (fel antenau trosglwyddo) sydd wedi'u dylunio i weithredu ar ystod benodol o amleddau, ac y mae'n bosibl y bydd angen eu haddasu neu eu newid er mwyn gallu gweithredu ar rai amleddau darlledu cyfyngedig. Byddwn yn ymgysylltu â thrwyddedeion y mae'r newidiadau arfaethedig hyn i amleddau yn effeithio arnynt er mwyn tynnu eu sylw at newidiadau cyn diwedd telerau eu trwydded bresennol.

## Trwyddedeion LRSL

3.14 Rydyn ni'n cynnig symud y rheini sy'n dal trwyddedau RSL presennol i amledd darpariaeth gyfyngedig (os oes un ar gael) ar ddiwedd cyfnod eu trwydded bresennol, os byddant yn gwneud cais i adnewyddu eu trwydded. Yn yr un modd â SRSLs am gyfnod estynedig, rydyn ni'n cydnabod y gallai'r cynnig hwn olygu y bydd angen ail-diwnio offer a/neu ddiweddaru deunyddiau hyrwyddo ar gyfer y gwasanaethau, ond rydyn ni'n nodi bod yr amledd penodol sy'n cael ei ddyrannu i RSL ar ddechrau tymor trwydded newydd yn ôl disgresiwn Ofcom.

[10] Yn amodol ar unrhyw angen posibl i amrywio amleddau am resymau rheoli sbectrwm arferol

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar drwydded BA safonol gwasanaeth cyfyngedig arfaethedig Ofcom?

Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i roi trwydded gwasanaeth cyfyngedig i'r rheini sy'n dal trwyddedau SRSL presennol am gyfnod estynedig ar amledd newydd ar ddiwedd cyfnod eu trwydded bresennol, os byddant yn gwneud cais am drwydded newydd?

Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i roi amleddau darpariaeth gyfyngedig (os oes rhai ar gael) i'r rheini sy'n dal trwyddedau RSL presennol ar ddiwedd cyfnod eu trwydded bresennol, os byddant yn gwneud cais i adnewyddu eu trwydded.

# 4. Cynigion i newid y broses ymgeisio am drwydded a'r cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig

Mae'r adran hon yn nodi'r newidiadau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud i'r broses ymgeisio am drwydded a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig.

4.1 Rydyn ni'n gwneud rhai mân newidiadau i'r broses ymgeisio a'r nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer trwyddedau i ddarparu gwasanaethau cyfyngedig. Mae'r rhain wedi'u nodi'n llawn yn y ffurflen gais arfaethedig a'r dogfennau nodiadau cyfarwyddyd sydd ar gael ar wefan yr ymgynghoriad hwn. Er hwylustod, rydyn ni'n nodi'r prif newidiadau yn yr adran hon.

## Gwneud cais am fwy nag un drwydded ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau ar un ffurflen gais

4.2 Ar hyn o bryd, ac eithrio SRSLs am gyfnod estynedig, mae ond yn bosibl i ymgeiswyr wneud cais am drwydded i ddarparu gwasanaeth cyfyngedig ar gyfer un digwyddiad ar y tro gan ddefnyddio'r ffurflen gais. Rydym yn cydnabod y gall fod adegau pan fydd ymgeiswyr eisiau rhoi sylw i ddigwyddiadau ar wahân am gyfnod byr. Er enghraifft, efallai y bydd ymgeisydd yn dymuno darparu RSL ar gyfer digwyddiad lleol sy'n cael ei gynnal ar ddechrau'r haf, a digwyddiad lleol arall, gwahanol, sy'n cael ei gynnal ddiwedd yr haf. Neu efallai y bydd ymgeisydd yn dymuno darparu RSLs i roi sylwebaethau ar gyfer ffilmiau yn-y-car mewn sawl lleoliad gwahanol dros benwythnos gŵyl y banc.

4.3 Yn unol â'n nod i'w gwneud mor syml â phosibl i'r rheini sydd â diddordeb mewn RSLs wneud cais am y trwyddedau gofynnol, byddwn yn caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio un ffurflen gais i wneud cais am nifer o drwyddedau gwasanaeth cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau ar wahân. Felly, os yw ymgeisydd yn gwneud cais am drwyddedau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau ar wahân o fewn cyfnod o dri mis i ddyddiad y digwyddiad cyntaf, bydd modd iddynt wneud hynny mewn un cais a thalu un ffi ymgeisio o £400. Bydd trwyddedau ar wahân yn cael eu rhoi ar gyfer pob digwyddiad, os byddant yn cael eu rhoi.

## Pryd fyddwn ni'n derbyn ceisiadau am drwydded ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau

4.4 Ar hyn o bryd, rydyn ni'n caniatáu i geisiadau am drwyddedau SRSLs gael eu gwneud 180 diwrnod (tua chwe mis) cyn dyddiad dechrau darlledu arfaethedig.[11] Rydyn ni'n

[11] Ac eithrio yn ystod cyfnodau o alw uchel, lle rydyn ni'n dilyn proses wahanol, mae'r manylion i'w gweld yn adran 5 ein nodiadau cyfarwyddyd cyfredol ar SRSL.

blaenoriaethu ein gwaith ar SRSLs ar sail y dyddiad dechrau darlledu, sy'n golygu os byddwn yn cael cais chwe mis cyn y dyddiad dechrau darlledu, efallai na fyddwn yn dechrau ein hasesiad ohono ar unwaith. Rydyn ni'n cydnabod y gall hyn olygu na fydd ymgeiswyr yn cael unrhyw ddiweddariadau sylweddol ar eu ceisiadau am rai wythnosau ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.

4.5 I gydnabod hyn, rydyn ni'n lleihau'r cyfnod y byddwn yn derbyn ceisiadau am drwydded am wasanaeth cyfyngedig ar gyfer digwyddiad o 180 diwrnod i 120 diwrnod (tua phedwar mis) cyn y dyddiad dechrau darlledu arfaethedig.

4.6 Os yw ymgeisydd yn gwneud cais am fwy nag un digwyddiad mewn un cais (fel rydyn ni'n ei ganiatáu fel y nodir yn 4.2 a 4.3 uchod), byddwn yn derbyn y cais 120 diwrnod cyn dyddiad dechrau darlledu arfaethedig y digwyddiad cyntaf.

## Gohiriadau

4.7 Pan fydd cais am drwydded SRSL wedi cael ei wneud mewn perthynas â darparu gwasanaeth cyfyngedig ar ddyddiad penodol, rydyn ni'n caniatáu i'r ymgeisydd newid y dyddiad darlledu arfaethedig am hyd at ddeuddeg mis heb orfod cyflwyno cais newydd ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau cysondeb â'n polisi ar ystyried ceisiadau ar sail y cyntaf i'r felin, rydyn ni'n cynnig diwygio ein canllawiau i nodi mai dim ond ceisiadau gan ymgeiswyr presennol y byddwn ni'n eu hystyried i ohirio'r darllediad arfaethedig i ddyddiad cychwyn sydd o fewn 120 diwrnod i ddyddiad y cais.

4.8 Mae angen i ni wneud rhagor o waith cynllunio amledd ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau i ohirio (ac felly'n arwain at gostau ychwanegol i Ofcom). Felly, byddwn yn egluro yn ein canllawiau diwygiedig mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn caniatáu ceisiadau i ohirio. Er enghraifft, fe wnaethom ganiatáu gohirio pan gafodd digwyddiadau eu canslo oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Ni fyddem yn disgwyl caniatáu cais i ohirio am resymau fel diffyg gwerthiant tocynnau.

## Hyd y drwydded

4.9 Mae ein nodiadau cyfarwyddyd ar LRSL yn nodi y byddwn yn rhoi trwyddedau i ddarparu LSRLs am gyfnod sylfaenol o flwyddyn hyd at uchafswm o bum mlynedd.

4.10 Byddwn yn diwygio ein canllawiau i ddileu'r cyfnod trwydded sylfaenol ar gyfer RSLs sy'n darlledu i sefydliad neu leoliad diffiniedig arall. Yn unol â'r diwygiadau hyn, bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r gwasanaethau hyn yn nhelerau'r drwydded, gan y byddwn yn rhoi trwyddedau am unrhyw gyfnod penodol, hyd at uchafswm o bum mlynedd. Byddwn yn cychwyn achos i ddiddymu trwyddedau os nad yw ffioedd blynyddol y drwydded yn cael eu talu.

## Cyfyngiadau daearyddol

4.11 Ar hyn o bryd, dim ond y tu allan i'r M25 y mae modd gwneud cais am drwyddedau LRSLs ar AM, a dim ond mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban y bydd LRSLs ar gael ar FM fel arfer.

4.12 Gyda'n dull darpariaeth gyfyngedig newydd, credwn y byddwn yn gallu gwneud mwy o'r sbectrwm, sy'n addas i'w ddefnyddio ar bwerau cyfyngedig, ar gael ar draws llawer mwy o ardaloedd yn y DU. O'r herwydd, byddwn yn dileu'r cyfyngiadau daearyddol sydd gennym ar waith ar hyn o bryd yn ein canllawiau diwygiedig, a byddwn yn derbyn ceisiadau am drwyddedau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig FM neu AM sy'n gwasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall yn unrhyw le yn y DU.

## Argaeledd amleddau FM ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig

4.13 O dan ein canllawiau presennol, rydyn ni'n dweud y byddwn ni'n ystyried ceisiadau am drwyddedau ar gyfer LRSLs ar FM mewn ardaloedd lle na fu unrhyw weithgarwch SRSL gerllaw yn ystod y tair blynedd diwethaf. Rydym yn mesur 'gweithgarwch SRSL' drwy wirio a ydym wedi cael cais am drwydded i ddarparu SRSL mewn ardal.[12] Ein diben yw sicrhau nad yw trwyddedu SRSL ar FM yn amharu ar ein gallu i drwyddedu SRSLs mewn ardaloedd cyfagos lle mae galw rheolaidd amdanynt, oherwydd y risg y bydd y gwasanaethau'n achosi ymyriant i'w gilydd.

4.14 Gyda'n dull darpariaeth gyfyngedig newydd, bydd gostyngiad sylweddol yn y risg y bydd RSLs mewn ardal yn achosi ymyriant i'w gilydd. Y rheswm am hyn yw, fel mae canlyniadau ein treialon yn dangos, y byddwn yn gallu defnyddio amleddau darpariaeth gyfyngedig ar FM ar gyfer LRSLs. Felly, mewn llawer o achosion, bydd modd darparu'r math hwn o wasanaeth cyfyngedig ar FM, a byddwn hefyd yn gallu rhoi trwyddedau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig eraill gerllaw, heb i'r gwasanaethau achosi ymyriant i'w gilydd.

4.15 Fodd bynnag, ni fydd amledd gwasanaeth cyfyngedig ar gael mewn rhai ardaloedd. Rydyn ni'n disgwyl i hyn fod mewn ardaloedd trefol yn bennaf. Y rheswm am hyn yw bod sbectrwm yn adnodd prin a chyfyngedig, ac mewn rhai rhannau o'r DU nid oes sbectrwm sbâr ar gael, hyd yn oed gan ddefnyddio amleddau darpariaeth gyfyngedig.

4.16 Rydyn ni'n disgwyl felly y bydd rhai cyfyngiadau o hyd o ran yr RSLs y gallwn ni eu trwyddedu mewn rhai ardaloedd. Yn unol â hynny, rydyn ni'n diwygio ein canllawiau, a lle nad oes amledd gwasanaeth cyfyngedig ar gael, byddwn fel rheol yn ystyried ceisiadau am drwyddedau i RSLs i gael eu darlledu i sefydliad neu leoliad diffiniedig arall lle na fu cais am drwydded i ddarparu gwasanaeth cyfyngedig ar gyfer digwyddiad yn yr ardal yn y 18 mis blaenorol.

4.17 Byddwn yn cyflwyno'r gwiriad 18 mis hwn o 1 Ionawr 2024 ymlaen. Rydyn ni o'r farn y byddai gwneud hynny rhywfaint yn gynharach yn methu mesur galw rheolaidd mewn ardal

[12] Yn gyffredinol, mae ardal yn cyfeirio at radiws o 12km o leoliad y gwasanaeth arfaethedig mewn lleoliadau trefol, a 20km mewn lleoliadau gwledig

am RSLs ar gyfer digwyddiadau a ganslwyd yn ystod pandemig Covid-19. Tan fis Ionawr 2024, byddwn yn parhau i edrych yn ôl dros gyfnod o dair blynedd er mwyn gallu canfod galw rheolaidd.

4.18 Mewn ardaloedd lle na allwn nodi amledd FM sydd ar gael i RSL er mwyn gwasanaethu sefydliad neu leoliad penodol, byddwn yn parhau i gynnig amledd AM pan fydd un ar gael.

## Pwy yw deilydd y drwydded

4.19 Ar hyn o bryd, mae ein canllawiau i RSL yn dweud bod yn rhaid i'r sawl sy'n dal trwydded ar gyfer LRSL fod yn uwch aelod parhaol o staff y sefydliad sy'n cael ei wasanaethu. Mewn rhai amgylchiadau, rydyn ni'n cydnabod y gallai hyn arwain at sefyllfa lle mae unigolyn nad yw'n ymwneud yn agos â darparu'r gwasanaeth radio yn dal trwydded.

4.20 Rydyn ni'n diwygio ein ffurflen gais a'n nodiadau cyfarwyddyd i adlewyrchu'r ffaith bod yn rhaid i'r ymgeisydd am wasanaeth cyfyngedig fod yn berson neu'n gorff a fydd yn darparu'r gwasanaeth. Os yw'r person hwn yn wahanol i'r person neu'r corff sy'n rhedeg y sefydliad y bwriedir y gwasanaeth ar ei gyfer (er enghraifft, os nad yr Ymddiriedolaeth sy'n rhedeg yr ysbyty yw'r ymgeisydd am wasanaeth radio ysbyty), byddwn yn gofyn am dystiolaeth bod y sefydliad perthnasol yn cefnogi'r cais. Pan wneir y cais ar ran cwmni neu gorff arall, byddwn yn gofyn am gadarnhad bod yr unigolyn sy'n gwneud y cais wedi'i awdurdodi i wneud hynny.

## Ceisiadau yn ystod cyfnod o alw mawr pan fydd mwy nag un amledd ar gael

4.21 Fel arfer, byddwn yn ystyried ceisiadau am drwyddedau SRSLs, ar sail y cyntaf i'r felin. Ond fel y nodir yn y nodiadau cyfarwyddyd SRSL presennol, os ydyn ni'n rhagweld y byddwn yn derbyn nifer fawr o geisiadau am wasanaethau sy'n cael eu darlledu yn yr un ardal ddaearyddol neu ardal ddaearyddol debyg yn ystod cyfnod penodol (rydyn ni'n galw hwn yn "gyfnod o alw mawr" ac un enghraifft o gyfnod o'r fath yw cyfnod y Ramadan), efallai y byddwn yn penderfynu peidio â defnyddio ein dull y cyntaf i'r felin arferol. Yn hytrach, rydyn ni'n gwahodd ymgeiswyr i wneud cais am drwydded am y cyfnod dan sylw tua chwe mis ymlaen llaw, yn ystod cyfnod ymgeisio y rhoddir cyhoeddusrwydd iddo. Petaem yn derbyn mwy nag un cais ar gyfer ardal, byddem yn dewis ar hap pa gais y dylid bwrw ymlaen ag ef.

4.22 Mae ein polisi presennol ynghylch sut rydyn ni'n delio â cheisiadau rydyn ni'n eu cael am gyfnod o alw mawr yn seiliedig ar sefyllfaoedd lle mai dim ond un amledd sydd ar gael mewn ardal ddaearyddol. Ond o bryd i'w gilydd, efallai y bydd mwy nag un amledd ar gael.[13]

[13] Mae amleddau ychwanegol o'r fath yn wahanol i'r amleddau darpariaeth gyfyngedig rydyn ni'n cynnig dechrau eu trwyddedu mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad hwn. Yn gyffredinol, mae amleddau ychwanegol o'r fath yn caniatáu dyraniadau pŵer uwch, ac fel y nodwyd uchod, dim ond mewn nifer cymharol gyfyngedig o leoliadau sydd i'w cael yn ystod cyfnodau o alw uchel.

4.23 Byddwn yn diweddaru ein nodiadau cyfarwyddyd i ystyried hyn. Gallai hyn olygu y gallem ddewis mwy nag un enw ar hap er mwyn sicrhau ein bod yn dyrannu'r holl amleddau sydd ar gael. Byddwn yn dewis ar hap yn unol â'r ceisiadau y byddwn yn eu derbyn, ac yn y ffordd sydd, yn ein barn ni, yn fwyaf addas ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau.[14]

### Y cwestiwn ymgynghori

Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newidiadau hyn i'n proses ymgeisio, fel y nodir yn y canllawiau diwygiedig yn Atodiad 4?

[14] Gweler Atodiad 1.

# 5. ADSRSLs a gwasanaethau ystod fer sy'n datblygu

> Mae'r adran hon yn nodi ein cynigion i wahodd yr Ysgrifennydd Gwladol i ystyried gwneud gorchymyn o dan Ddeddf Darlledu 1990 a fyddai'n darparu eithriad ar gyfer systemau dosbarthu sain a gwasanaethau darlledu ystod fer newydd o'r gofyniad i ddal trwydded BA.

5.1 Ar hyn o bryd, mae angen Gwasanaethau Cyfyngedig Systemau Dosbarthu Sain (ADRSRSLs) ar gyfer trawsyrru cynnwys sain i'w dderbyniad uniongyrchol gan y rheini sydd mewn ardal fach a ddiffinnir (lleoliadau fel stadia chwaraeon neu neuaddau cynadledda fel arfer) gan ddefnyddio sbectrwm Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig ("PMSE"). Mae'r darllediadau radio hyn yn wahanol i SRSLs neu LRSLs oherwydd eu bod yn cael eu darlledu ar amleddau nad ydynt yn cael eu defnyddio gan orsafoedd radio darlledu FM nac AM confensiynol. Fel arfer, bydd gweithredwyr yn gwerthu neu'n benthyg derbynyddion wedi'u teilwra'n arbennig i alluogi'r rhai sy'n mynychu i glywed y gwasanaeth. Rhai enghreifftiau o'r math hwn o wasanaeth yw system dosbarthu sain ar gyfer rhannu sylwadau'r dyfarnwr neu sylwebaeth chwaraeon mewn stadiwm a chyfieithiadau mewn cynadleddau.

5.2 Yn ddiweddar, rydyn ni wedi gweld technolegau amgen yn cael eu defnyddio i drawsyrru cynnwys sain. Er enghraifft, efallai y bydd gweithredwyr disgos distaw eisiau trosglwyddo'r gerddoriaeth i glustffonau Bluetooth di-wifr sydd wedi'u paru gerllaw. Rydyn ni hefyd wedi gweld rhai gweithredwyr eraill yn defnyddio technoleg yn wahanol, fel gweithredwyr ffilmiau yn-y-car yn trosglwyddo trac sain y ffilm i geir gan ddefnyddio dyfeisiau Bluetooth pellter agos, yn hytrach na thrwy drosglwyddiadau darlledu mwy confensiynol. Mae darparwyr posibl eraill yn ceisio defnyddio technoleg mewn ffyrdd mwy arloesol, fel hyfforddwyr nofio sy'n dymuno rhannu cyfarwyddiadau gyda'r rheini yn eu dosbarthiadau drwy dderbynyddion cudd sy'n gweithio yn y dŵr. Mae'r dechnoleg a ddefnyddir yn yr achos olaf hwn yn drosglwyddydd pŵer isel iawn (fel iTrip) sy'n gweithredu ar y band FM dros ystod fer iawn, ac nid oes angen trwydded i ddefnyddio sbectrwm ar gyfer hyn.

5.3 Mae'r mathau hyn o wasanaethau yn dod o dan y diffiniad o wasanaeth cyfyngedig o dan adran 245 CA03 ac, o'r herwydd, byddai disgwyl iddynt fod â thrwydded BA.[15]

5.4 Mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod deiliaid trwydded BA yn cydymffurfio â'r Cod Darlledu ('y Cod').[16] Mae'r Cod yn cynnwys y safonau sydd (ymysg materion eraill) i fod i sicrhau bod digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus mewn cynnwys a ddarlledir. Am y rhesymau a nodir isod, rydyn ni o'r farn bod ADSRSLs a

[15] Fel y nodir yn Atodiad 1:
[16] Gweler adrannau 325 a 326 y Deddf.

gwasanaethau ystod fer sy'n datblygu yn peri risg isel iawn o ran eu potensial i achosi niwed i aelodau'r cyhoedd y mae angen eu diogelu o dan y Cod.

5.5 Yn gyntaf, mae'r gwasanaethau hyn yn gyfyngedig iawn o ran y ddarpariaeth y gallant ei chyflawni naill ai oherwydd yr amleddau y maent yn eu defnyddio, yr offer arbenigol sydd ei angen i dderbyn y gwasanaethau, a/neu'r lefelau pŵer isel iawn a ddefnyddir. Mae SRSLs a LRSLs yn darlledu ar bŵer sylfaenol o 50mW. Mae Bluetooth yn gweithredu ar oddeutu un rhan o ugain o'r pŵer hwnnw (2.5 mW) a throsglwyddyddion FM nad oes angen trwydded ar un rhan o filiwn o'r pŵer hwnnw (50 nW). Mewn enghreifftiau eraill:

- Mae gwasanaethau disgo distaw yn gweithredu fel arfer drwy ddarparu clustffonau wedi'u galluogi gyda Bluetooth i'r rhai sy'n bresennol. Mae'n drosglwyddiad ystod fer, sydd fel arfer yn ymestyn i tua deg metr. Fel arfer, dim ond y rheini sy'n dod i'r disgo distaw gan ddefnyddio'r clustffonau arbenigol sy'n gallu derbyn y gwasanaeth.
- Mae rhai ffilmiau yn-y-car yn gweithio drwy ddarparu dyfeisiau i'r rhai sy'n bresennol sy'n cysylltu â radio eu car, ac mae'n rhaid eu cysylltu â 'throsglwyddydd' Bluetooth. Mae'n drosglwyddiad ystod fer, sydd fel arfer ond yn ymestyn i tua deg metr. Felly, dim ond y rheini sy'n mynd i leoliad y ffilm yn y car sydd wedi paru'r ddyfais arbenigol sy'n gallu derbyn y gwasanaeth.
- Yn yr un modd, gallai digwyddiadau yn-y-car ddefnyddio dyfeisiau FM pŵer isel iawn (fel iTrip neu debyg) i drosglwyddo sain i radio cerbyd dros ystod fer o ychydig fetrau. Dim ond radio FM o fewn yr ystod fyddai'n gallu tiwnio i mewn i'r gwasanaeth sain.

5.6 Yn ail, o ganlyniad i'r ardal ddarlledu gyfyngedig iawn, nid oes llawer o risg y bydd aelod o'r cyhoedd yn tiwnio i mewn i wasanaethau o'r fath yn anfwriadol, y tu allan i'r grŵp sydd wedi dewis ei dderbyn.

5.7 Yn drydydd, mae'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu drwy systemau dosbarthu sain yn ategol i wasanaeth arall (cystadleuaeth chwaraeon, cynhadledd, gwers nofio, ffilm yn-y-car) ac felly bydd yn cael ei lywodraethu gan ofynion y prif wasanaeth.[17]

5.8 Gan ystyried yr ystyriaethau hyn yn gyffredinol, rydyn ni o'r farn y byddai'n briodol felly i'r gwasanaethau fod yn rhwym wrth drefn reoleiddio gyda chyffyrddiad mor ysgafn â phosibl.

5.9 Felly, rydyn ni'n cynnig gofyn i Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ystyried gwneud gorchymyn o dan adran 97 BA90 a fyddai'n darparu eithriad ar gyfer y mathau hyn o wasanaethau rhag gorfod dal trwydded BA.[18] Petai'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn ein hargymhelliad, yr Ysgrifennydd

---

[17] Rydyn ni'n nodi o dan a.248(2) CA03 nad oes modd trwyddedu cynnwys sain a drosglwyddir drwy loeren neu rwydwaith cyfathrebu electronig ac sy'n rhan o fwndel o wasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu at ddiben darparu rhaglenni radio neu deledu i'r cyhoedd.

[18] Dylai darparwyr gwasanaeth y mae'r newidiadau arfaethedig hyn yn effeithio arnynt fod yn ymwybodol y byddai dal angen trwydded WTA (yn awdurdodi'r defnydd o'r sbectrwm), oni bai nad oes angen trwydded ar gyfer y gwasanaeth. Mae angen trwydded WTA ar ddarparwyr gwasanaethau ADRSL; nid oes angen trwyddedau ar wasanaethau sy'n cael eu darparu drwy ddyfeisiau Bluetooth ac iTomps.

Gwladol fyddai'n penderfynu ar sylwedd unrhyw orchymyn o dan adran 97(2) o Ddeddf Darlledu 1990 a gyflwynir gerbron y Senedd.

5.10 Os gwneir gorchymyn o'r fath gan y DCMS, byddem yn gweithio gyda deiliaid presennol trwyddedau ADSRSL i gadarnhau beth mae hyn yn ei olygu i'w gwasanaethau a diweddaru'r wybodaeth am wasanaethau cyfyngedig rydyn ni'n eu cyhoeddi ar ein gwefan. Yn y cyfamser, dylai deiliaid trwyddedau presennol barhau i ddarparu eu gwasanaethau yn unol ag amodau eu trwyddedau, a dylai ymgeiswyr newydd gyfeirio at ddogfennau cyfredol ADSRSL sydd ar gael ar ein gwefan.

**Y cwestiwn ymgynghori**

Cwestiwn 6: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS osod Offeryn Statudol gerbron y Senedd a fyddai'n darparu eithriad a fyddai'n golygu na fyddai'n rhaid i rai gwasanaethau ddal trwydded Deddf Darlledu?

# 6. Cynigion i newid y drefn ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig

Mae'r adran hon yn nodi'r newidiadau rydyn ni'n eu cynnig i symleiddio'r strwythur ffioedd sy'n berthnasol i drwyddedau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig.

## Y drefn ffioedd bresennol

6.1 Ar hyn o bryd, rydyn ni'n codi ystod o ffioedd gwahanol am drwyddedau a roddir i ddarparu gwasanaethau cyfyngedig.

6.2 Ar gyfer SRSLs, codir ffi ymgeisio o £400. Ar ben hynny, codir ffi trwydded ar wahân ar hyn o bryd ar sail ddyddiol ar gyfer pob un o'r trwyddedau BA a WTA y mae eu hangen ar y gwasanaethau hyn. Mae'r gyfradd ddyddiol a godir yn amrywio yn ôl y pŵer a ddefnyddir i drosglwyddo ac a yw'r gwasanaeth yn darlledu ar AM neu FM, fel y nodir isod:

**Tabl 1: tariff ffioedd trwyddedau SRSL cyfredol:**

| | Ffi BA | Ffi WTA | Cyfanswm Ffioedd | Ffi BA | Ffi WTA | Cyfanswm Ffioedd | Ffi BA | Ffi WTA | Cyfanswm Ffioedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 Wat AM | | | 1 Wat FM | | | Uwchlaw 1 Wat (hyd at 25 Wat) | | |
| **Cyfradd ddyddiol** | £10 | £15 | **£25** | £10 | £25 | **£35** | £30 | £40 | **£70** |

6.3 Ar gyfer LRSLs, codir ffi ymgeisio o £200. Mae ffi drwydded flynyddol ar wahân ar gyfer pob un o'r trwyddedau BA a WTA, sy'n amrywio yn ôl a yw'r gwasanaeth yn darlledu ar AM, FM neu drwy ddefnyddio dolen sain, fel y nodir isod:

**Tabl 2: tariff ffioedd trwyddedau LRSL cyfredol:**

| | Ffi BA flynyddol | Ffi WTA flynyddol | Cyfanswm Ffioedd |
|---|---|---|---|
| **AM** | £275 | £100 | **£375** |
| **FM** | £140 | £100 | **£240** |
| **Dolen sain** | £140 | £100 | **£240** |

6.4 Rydyn ni'n codi ffi o £200 am wneud newidiadau i gais am drwydded lle rydym wedi derbyn y cais.

# Ffioedd arfaethedig

6.5 Rydyn ni'n cynnig symleiddio'r strwythur ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig.

## Ffioedd trwydded

6.6 Fel y nodir yn ein Datganiad o Egwyddorion Codi Tâl, mae ffioedd trwyddedau darlledu yn cynrychioli cost swyddogaethau Ofcom sy'n ymwneud â rheoleiddio darlledu. Maen nhw'n cael eu cyhoeddi ar ddechrau pob blwyddyn ariannol yn nhablau tariffau Ofcom. Mae ffioedd trwyddedau telegraffiaeth ddi-wifr ar gyfer gwasanaethau darlledu yn cynrychioli cost swyddogaethau Ofcom sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gynllunio, awdurdodi a gorfodi sbectrwm. Mae ffioedd trwyddedau telegraffiaeth ddi-wifr yn cael eu cyhoeddi yn Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) 2020 ("y Rheoliadau").

6.7 Ar gyfer RSLs sy'n trosglwyddo hyd at ac yn cynnwys 2 wat, rydym yn cynnig y byddwn yn codi cyfradd ddyddiol o £30 am ffi'r drwydded BA a £40 am ffi'r drwydded WTA, hyd at derfyn blynyddol o £210 am ffi'r drwydded BA a £240 am ffi'r drwydded WTA.

6.8 Ar gyfer RSLs sy'n trosglwyddo dros 2 wat, rydym yn cynnig y byddwn yn codi cyfradd ddyddiol o £30 am ffi'r drwydded BA a £40 am ffi'r drwydded WTA, hyd at derfyn blynyddol o £900 am ffi'r drwydded BA a £1200 am ffi'r drwydded WTA.

6.9 Rydyn ni'n credu bod y ffioedd hyn, sydd wedi'u nodi yn y tabl isod, yn adlewyrchiad priodol o'r costau rydyn ni'n eu hwynebu.

**Tabl 3: tariff ffioedd trwyddedau RSL newydd arfaethedig:**

| | Cyfradd ddyddiol ffi BA | Cyfradd ddyddiol ffi WTA | Cyfanswm ffioedd dyddiol | Terfyn blynyddol BA | Terfyn blynyddol WTA | Cyfanswm yr uchafswm ffioedd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hyd at 2W** | £30 | £40 | **£70** | £210 | £240 | **£450** |
| **Uwchlaw 2W** | £30 | £40 | **£70** | £900 | £1200 | **£2100** |

6.10 Rydyn ni'n disgwyl y bydd y rhan fwyaf o drwyddedau a roddir i wasanaethau cyfyngedig sy'n gwasanaethu sefydliadau neu leoliadau eraill a ddiffiniwyd yn cael eu trosglwyddo hyd at 2 wat, a bydd y rhan fwyaf o drwyddedau a roddir i wasanaethau cyfyngedig sy'n gwasanaethu digwyddiadau yn trosglwyddo uwchlaw 2 wat.

6.11 Byddwn yn rhoi'r gorau i bennu ffioedd ar gyfer darlledu RSLs drwy ddefnyddio dolenni sain. Y rheswm am hyn yw nad oes dim RSLs trwyddedig cyfredol yn defnyddio dolenni sain. Dydyn ni heb dderbyn ceisiadau am drwydded ar gyfer y math hwn o wasanaeth ers

blynyddoedd lawer ac nid ydym yn disgwyl cael unrhyw rai yn y dyfodol gan ei bod yn ymddangos bod y dechnoleg wedi darfod.

6.12 Mae'r newidiadau arfaethedig i ffi'r drwydded hefyd yn dileu'r sefyllfa bresennol o godi ffioedd gwahanol yn dibynnu ar a yw'r gwasanaeth yn darlledu ar AM neu FM. Nid ydym yn credu bod gwahaniaeth mawr yn ein costau ni ar hyn o bryd, yn dibynnu ar ba mor amlder mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarlledu arno. Nid yw'r sefyllfa'r un fath ar gyfer Radio Masnachol a Chymunedol lle mae'r gwahaniaethau ein costau i gynllunio a rheoleiddio gwasanaethau ar FM ac AM yn dal i fodoli.

6.13 Mae'r newidiadau arfaethedig i ffi'r drwydded hefyd yn cyflwyno terfyn uchaf blynyddol ar gyfer ffioedd trwyddedau, i sicrhau bod y ffioedd yn parhau'n gymesur ar gyfer RSLs y bwriedir eu darparu dros gyfnod hwy.

### Beth fyddai hyn yn ei olygu i ddarparwyr sy'n dymuno gwasanaethu digwyddiad

6.14 Ar hyn o bryd, rydyn ni'n rhoi trwyddedau SRSL ar gyfer y math hwn o wasanaeth. Yn ddiweddar, rydyn ni wedi adolygu SRSLs sydd wedi'u trwyddedu, ac mae ein dadansoddiad yn dangos, gyda'r newidiadau arfaethedig i ffioedd trwyddedau, y byddai'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n dal trwyddedau SRSL presennol naill ai'n talu'r un faint mewn ffioedd trwyddedau BA a WTA, neu'n wynebu gostyngiad yn ffioedd trwyddedau BA a WTA os byddant yn darlledu am dros 30 diwrnod.

### Beth fyddai hyn yn ei olygu i ddarparwyr sy'n dymuno gwasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall

6.15 Ar hyn o bryd, rydyn ni'n rhoi trwyddedau LRSL ar gyfer y math hwn o wasanaeth. Mae trwyddedeion yn talu cyfanswm cyfun blynyddol o £375 mewn ffioedd trwyddedau BA a WTA os ydynt yn darlledu ar AM (£275 am y drwydded BA a £100 am y drwydded WTA), a £240 os ydynt yn darlledu ar FM (£140 am y drwydded BA a £100 am y drwydded WTA).

6.16 O dan ein cynigion, byddai'r trwyddedeion hyn yn gweld cynnydd bach yn y ffioedd blynyddol cyffredinol sy'n daladwy: rydyn ni'n disgwyl y bydd y rhan fwyaf o RSLs sy'n darlledu i sefydliad neu leoliad diffiniedig arall yn trosglwyddo hyd at 2 wat. Mae hyn yn golygu y bydd y terfyn uchaf blynyddol y ffioedd trwydded BA a WTA cyfun yn £450 (£210 BA a £250 WTA).

6.17 Fel rydyn ni wedi'i nodi uchod, nid yw ffioedd arfaethedig y trwyddedau'n gwahaniaethu rhwng gwasanaethau sy'n darlledu ar AM nac ar FM. Mae ein cynnig ar gyfer terfyn uchaf blynyddol ffi'r drwydded BA o £210 yn fan canol wedi'i dalgrynnu rhwng y ffioedd trwydded BA cyfredol a godir ar LRSLs a drwyddedwyd i ddarlledu ar AM a LRSLs a drwyddedwyd i ddarlledu ar FM ac, o'r herwydd, mae'n briodoliad rhesymol i ddeiliaid trwyddedau gwasanaeth cyfyngedig am y costau a ysgwyddir gan Ofcom wrth reoleiddio darllediadau a sbectrwm yn y drefn honno.

## Ffioedd diwygio

6.18 Nid ydyn ni'n cynnig unrhyw newidiadau i'r ffi o £200 rydyn ni'n ei chodi am wneud newidiadau i gais am drwydded i ddarparu gwasanaeth cyfyngedig ar ôl i'r cais gael ei dderbyn, ond cyn i unrhyw drwydded gael ei rhoi. Gweithredir y ffi hon pan ofynnir am unrhyw newidiadau lle nad oes angen ail-gynllunio amledd, fel newid deiliad arfaethedig y drwydded.

6.19 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol, os byddant yn gofyn am newidiadau lle mae angen ail-gynllunio amledd, fel newid y dyddiadau darlledu neu symud i safle trosglwyddo gwahanol, y gofynnir iddynt dalu cost trwydded WTA eto fel arfer.

## Ffioedd ymgeisio

6.20 Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i ffioedd ymgeisio am drwyddedau i ddarparu RSLs, sydd ar hyn o bryd yn £200 ar gyfer cais am drwydded i wasanaethu sefydliad neu leoliad arall, a £400 ar gyfer cais am drwydded ar gyfer gwasanaethu digwyddiad. Pan fydd ymgeisydd yn gwneud ceisiadau ar yr un pryd am fwy nag un drwydded ar gyfer digwyddiadau ar wahân (naill ai mewn lleoliadau gwahanol neu ar adegau gwahanol mewn cyfnod o dri mis, fel y nodir ym mharagraffau 4.2 a 4.3 uchod), codir ffi ymgeisio unigol o £400.

# Y camau nesaf

6.21 Ar ôl i ni ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyhoeddi datganiad gyda'n penderfyniad yn ystod haf 2022, ac os bydd y cynigion hyn ar gyfer ffioedd yn cael eu mabwysiadu, byddai'r ffioedd newydd yn dod i rym ar y dyddiad cyhoeddi.

6.22 Codir y ffioedd newydd am drwyddedau a gyhoeddwn ar ôl cyhoeddi ein datganiad.

6.23 Ar gyfer y rhai sy'n dal trwyddedau LRSL presennol, bydd y ffioedd newydd yn dod i rym o'u dyddiad bilio blynyddol nesaf ar gyfer ffi'r drwydded. Ar gyfer trwyddedau SRSL presennol a thrwyddedau SRSL cyfnod estynedig (hynny yw, y rheini sydd â thrwyddedau a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi ein datganiad, lle mae ffioedd y drwydded wedi cael eu talu ymlaen llaw) byddai'r drefn ffioedd bresennol yn parhau i fod yn berthnasol nes y daw'r trwyddedau i ben.

6.24 Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad ar ddiweddaru'r Rheoliadau'n nes ymlaen yn 2022. Mae Atodiad 5 yn nodi'r newidiadau drafftio a fydd yn cael eu gwneud i'r Rheoliadau os byddwn yn gweithredu ein cynigion mewn perthynas â ffioedd trwyddedau WTA ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig.

### Y cwestiwn ymgynghori

Cwestiwn 7: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ffioedd arfaethedig Ofcom ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig?

# A1. Y Fframwaith Rheoleiddio

A1.1 Mae'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg o'r fframwaith rheoleiddio sy'n berthnasol i'r newidiadau a'r cynigion a nodir yn yr Ymgynghoriad hwn. Nodir pwerau a dyletswyddau statudol Ofcom mewn perthynas â rheoli sbectrwm yn bennaf yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") a Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 ("Deddf 2006") ac wedi'u nodi yn y Ddeddf a Deddf Darlledu 1990 ("Deddf 1990") a Deddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") mewn perthynas â gwasanaethau darlledu.

## Dyletswyddau cyffredinol Ofcom – adran 3 y Ddeddf

A1.2 O dan y Ddeddf, ein prif ddyletswydd o ran cyflawni ein swyddogaethau yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol i ni sicrhau nifer o amcanion penodol a rhoi sylw i nifer o faterion a nodir yn adran 3 y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys (ymysg pethau eraill) sicrhau'r defnydd gorau o delegraffiaeth ddi-wifr y sbectrwm electromagnetig ("sbectrwm"), argaeledd ystod eang o wasanaethau teledu a radio ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac yn apelio at amrywiaeth eang o chwaethau a diddordebau a bod digonedd o wahanol ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio ar gael.[19]

A1.3 Wrth gyflawni ein dyletswyddau, mae'n rhaid i ni hefyd ystyried amrywiaeth o ystyriaethau eraill, sy'n ymddangos yn berthnasol i ni o dan yr amgylchiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwahanol anghenion a diddordebau, o ran defnyddio'r sbectrwm ar gyfer telegraffi di-wifr, pawb a all fod yn dymuno'i ddefnyddio; a'r
- diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y DU a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.[20]

A1.4 Mae'n rhaid i ni hefyd ystyried yr egwyddorion y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu'n benodol at achosion lle mae angen gweithredu, yn ogystal â buddiannau defnyddwyr o ran dewis, pris, ansawdd gwasanaeth a gwerth am arian.

A1.5 Fodd bynnag, mae gennym gryn dipyn o ddisgresiwn wrth gydbwyso ein dyletswyddau a'n hamcanion statudol. Wrth wneud hynny, rydyn ni'n ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol, gan gynnwys yr ymatebion a gafwyd yn ystod ein proses ymgynghori, wrth ddod i'n casgliadau.

---

[19] A3(2) y Ddeddf.
[20] A3(4) y Ddeddf

## Dyletswyddau at ddibenion cyflawni ein rhwymedigaethau – adran 4 y Ddeddf

A1.6 Mae Adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu'n unol â nifer o ofynion ar gyfer rheoleiddio, wrth gyflawni ein swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm radio. Mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad i hyrwyddo buddiannau holl aelodau'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig.

## Asesu Effeithiau

A1.7 Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr Ymgynghoriad hwn yn asesiad effaith yn unol â'r diffiniad yn adran 7 o'r Ddeddf.

A1.8 Mae Asesiadau Effaith yn ffordd werthfawr o asesu'r gwahanol opsiynau ar gyfer rheoleiddio, ac yn dangos pam y dewiswyd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio. Maent yn rhan o'r broses o lunio polisi ar sail yr arferion gorau. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn adran 7 o'r Ddeddf, ac yn golygu bod rhaid i ni gynnal asesiadau effaith fel arfer lle mae'n debygol o fod effaith arwyddocaol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu lle mae newid mawr yn ein gweithgareddau. Fodd bynnag, fel mater o bolisi, mae Ofcom wedi ymrwymo i gynnal a chyhoeddi asesiadau effaith mewn perthynas â mwyafrif ei benderfyniadau polisi.[21]

A1.9 Yn benodol, yn unol ag adran 7, rhaid i asesiad effaith nodi sut, yn ein barn ni, y mae cyflawni ein dyletswyddau cyffredinol (o fewn ystyr adran 3 y Ddeddf) yn cael ei sicrhau neu ei hybu gan y rheoliad rydym yn ei osod neu mewn perthynas ag ef.

A1.10 Mae gofyniad ar wahân arnom o dan statud i asesu effaith ddichonol ein holl swyddogaethau, polisïau, prosiectau ac arferion ar gydraddoldeb.[22]

## Rheoleiddio gwasanaethau darlledu sain

A1.11 O dan adran 245 y Ddeddf, mae gan Ofcom y swyddogaeth o reoleiddio rhai gwasanaethau darlledu sain penodol yn unol â'r Ddeddf, Deddf 1990 a Deddf 1996. Mae'r gwasanaethau darlledu sain penodedig yn cynnwys gwasanaethau cyfyngedig sydd wedi'u diffinio yn adrannau 245(3) a 245(4)(c) y Ddeddf fel a ganlyn:

- gwasanaeth darlledu sain sy'n cael ei ddarparu gyda'r bwriad o'i ddarlledu heblaw am drwy loeren yn unig, a gyda'r bwriad o'i ddarlledu i gael derbyniad;

[21] I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydyn ni'n mynd ati i gynnal asesiadau effaith, edrychwch ar y canllawiau, Better Policy Making: Ofcom's approach to Impact Assessment

[22] Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn gwneud hynny. Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym yn cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

i) mewn sefydliad penodol yn y Deyrnas Unedig neu mewn lleoliad arall wedi'i ddiffinio yn y Deyrnas Unedig; neu

ii) at ddibenion digwyddiad penodol sy'n cael ei gynnal yn y Deyrnas Unedig.

A1.12 Mae gan Ofcom y pŵer o dan Adran 85(1) o Ddeddf 1990 i roi trwyddedau BA mewn perthynas â gwasanaethau cyfyngedig o'r fath ac wrth wneud hynny dylem wneud popeth yn ein gallu i sicrhau darpariaeth o ystod ac amrywiaeth o wasanaethau lleol yn y Deyrnas Unedig.

A1.13 Mae gan Ofcom y pŵer i amrywio amodau trwydded o'r fath o dan Adran 86(5) o Ddeddf 1990, yn achos amrywio'r cyfnod y mae'r drwydded i barhau mewn grym, gyda chydsyniad y sawl sy'n dal y drwydded. Yn achos unrhyw amrywiad arall, dylid rhoi cyfle rhesymol i'r sawl sy'n dal y drwydded gyflwyno sylwadau am yr amrywiad.

A1.14 Mae adran 97(1) o Ddeddf 1990 yn datgan bod unrhyw berson sy'n darparu unrhyw wasanaeth radio perthnasol a reoleiddir heb gael ei awdurdodi i wneud hynny gan y drwydded berthnasol, yn euog o drosedd. Mae Adran 97(2) yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, ar ôl ymgynghori ag Ofcom, wneud gorchymyn a fyddai'n gwneud adran 97(1) yn amherthnasol i wasanaethau a restrir yn y gorchymyn hwnnw.

A1.15 O dan Adran 8 o Ddeddf 2006, mae gan Ofcom y pŵer i roi trwydded WTA ar gyfer gosod neu ddefnyddio offer telegraffiaeth ddi-wifr. Mae'n anghyfreithlon i osod neu ddefnyddio cyfarpar telegraffiaeth ddi-wifr heb drwydded o'r fath, oni bai ei fod wedi'i eithrio.

## Gosod ffioedd blynyddol ar gyfer trwyddedau Darlledu a thrwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr

A1.16 Mae Adran 87 o Ddeddf 1990 yn rhoi'r pŵer i Ofcom osod amodau mewn trwyddedau BA sy'n mynnu bod ffioedd yn cael eu talu yn unol â thariff a bennir ac a gyhoeddir gan Ofcom. Mae'r tablau Tariffau ar gyfer 2021/22 a blynyddoedd blaenorol ar gael ar wefan Ofcom.[23]

A1.17 O dan Adran 12 o Ddeddf 2006, rhaid i unigolyn sy'n cael trwydded WTA, neu mewn perthynas â'i hamrywio, dalu i Ofcom unrhyw symiau y gall Ofcom eu rhagnodi drwy reoliadau. Nodir y ffioedd sydd ar waith ar hyn o bryd yn Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) 2020.[24]

[23] Tablau tariffau - Ofcom
[24] Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau) 2020 (legislation.gov.uk)

# A2. Y diweddaraf am dreialon darpariaeth gyfyngedig

## Cefndir

A2.1 Ar y dechrau, rhoddodd Ofcom brawf ar ymarferoldeb technegol defnyddio amleddau darlledu cyfyngedig drwy labordy fewnol a gwaith maes. Er mwyn dilysu'r dull yn ehangach, yn 2021 fe wnaethom wahodd ceisiadau i gymryd rhan mewn treial 'yn y byd go iawn' o wasanaethau gan ddefnyddio'r dull darpariaeth gyfyngedig. Nod y treial yw profi'r defnydd o sbectrwm darpariaeth cyfyngedig mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol i weld a yw'r ddarpariaeth a'r ymyriant sy'n gysylltiedig â'r sbectrwm darpariaeth gyfyngedig yn cyd-fynd â'n disgwyliadau, ac felly, a allwn ddefnyddio'r dull cynllunio darpariaeth cyfyngedig i gynyddu'r cyflenwad o sbectrwm sydd ar gael ar gyfer RSLs sydd ond angen gwasanaethu ardaloedd bach.

A2.2 Dechreuodd y trwyddedau ar gyfer y gwasanaethau treialu ym mis Medi 2021 a byddant yn para am 12 mis. Gofynnwyd i gyfranogwyr ddarparu adroddiadau ar y derbyniad yn ystod tri mis cyntaf y treial y gallai Ofcom eu defnyddio i ddilysu ac addasu ei fodel cynllunio. Wedi hynny, y cyfan sydd angen i gyfranogwyr ei wneud yw cadw cofnodion, a rhoi gwybod am achosion o ymyriant neu dderbyniad gwael yn ystod gweddill cyfnod y treial.

A2.3 Er bod y treialon yn dal i fynd rhagddynt, maen nhw eisoes wedi dangos i ni fod y dull darpariaeth gyfyngedig yn gweithio'n dda, a'i fod yn gallu darparu cyfleoedd i ddefnyddio dyraniadau amledd isel newydd heb achosi ymyriant i orsafoedd presennol. Mae hefyd wedi dangos bod y dull darpariaeth gyfyngedig yn rhoi darpariaeth sy'n cyd-fynd â'n disgwyliadau, ac felly'n rhoi digon o hyder i ni fabwysiadu'r dull yn ehangach.

## Cyfranogwyr

A2.4 Mae'r tabl isod yn rhestru cyfranogwyr y treial[25] a'u lleoliadau:

| Sefydliad | Enw'r Gwasanaeth | Lleoliad |
|---|---|---|
| Ysbyty Ardal Harrogate | Harrogate Hospital Radio | Harrogate |
| Ysbyty Derriford | Hospital Radio Plymouth | Plymouth |
| Ysbyty Dwyrain Surrey | Radio Redhill | Redhill |
| Ysbyty Cyffredinol Caerlŷr | LCR2 | Caerlŷr |
| Ysbyty Stoke Mandeville | Stoke Mandeville Hospital Radio | Aylesbury |

[25] Roedd rhaid i un treialydd dynnu'n ôl o'r treial yn gynnar oherwydd problem gyda lleoliad eu antena trawsyrru. Profodd treialydd arall oedi sylweddol yn dod ar yr awyr oherwydd problemau gyda'r cyflenwad trydan.

| | | |
|---|---|---|
| Ysbyty George Eliot | Anker Radio | Nuneaton |
| Ysbyty St Margaret | Forest Gold Radio | Epping |
| Campws Prifysgol Caerefrog | University Radio York | Caerefrog |
| Gilwell Park – pencadlys Cymdeithas y Sgowtiaid | Scout Radio | Chingford |
| Canolfan filwrol Bovington | BFBS Blandford | Bovington |
| Canolfan filwrol Thorncliffe | BFBS Gurkha Radio | Dover |
| Parc Busnes Osborne Stable Block | Our Island Radio | Ynys Wyth |

A2.5 Mae'r treialon wedi cael eu lleoli mewn set amrywiol o amgylcheddau. Er bod y rhan fwyaf o dreialwyr yn gweithredu mewn ysbytai, mae amrywiaeth sylweddol yn y grŵp hwn o ran y mathau o adeiladau, uchder ac adeiladwaith, yn ogystal ag o ran maint cyffredinol yr ystadau ysbytai. Mae safleoedd treialu eraill yn cynnwys campws prifysgol mawr, pencadlys Cymdeithas y Sgowtiaid, canolfannau milwrol a pharc i fusnesau bach.

A2.6 Felly, rydym o'r farn bod safleoedd sy'n rhan o'r treial yn eithaf cynrychioliadol o'r ystod o sefyllfaoedd o ran safleoedd (neu leoliadau diffiniedig eraill) y byddem yn disgwyl dyrannu sbectrwm darpariaeth cyfyngedig iddynt yn ein trefn drwyddedu barhaol.

## Cynnydd a chanfyddiadau treialon

A2.7 Gofynnom i gyfranogwyr y treial roi adborth misol i ni yn ystod tri mis cyntaf y treial. Roeddem wedi darparu templed o adroddiad adborth darpariaeth i'n treialwyr ei lenwi a oedd yn rhoi adborth i ni ynghylch pa fath o ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i dderbyn y gwasanaeth, a oedd y ddarpariaeth yr un fath â'r disgwyl yn ogystal ag unrhyw ardaloedd lle'r oedd derbyniad yn wael neu'n destun ymyriant. Roedd hyn yn ein galluogi i fonitro cynnydd y treial mewn ffordd strwythuredig.

A2.8 Roedd hi'n arbennig o bwysig i ni wybod a oedd y sylw a gafwyd gan bob treial yn bodloni disgwyliadau'r y treialwyr, ac a oedd yn unol â'n gwaith modelu technegol ni.

A2.9 Roedd y lefelau pŵer trosglwyddo roeddem wedi'u dyrannu i bob treial i ddechrau yn gymharol geidwadol, ond mi wnaethom gynnig cynnydd mewn pŵer i dreialwyr os oedd eu hadborth yn dangos problemau derbyniad neu ddiffygion yn y ddarpariaeth signal. Mae wyth o'r 11 treial wedi cynyddu eu pŵer hyd yma, ac mae'r rhan fwyaf o dreialwyr bellach yn gweithredu naill ai ar 1 wat neu 1.5 wat (ac mae'r rhan fwyaf o'r treialon sy'n gweithredu ar y lefelau pŵer hyn ar safleoedd ysbytai).

A2.10 Tynnodd un treialydd allan o'r treial ar ôl cyfnod byr yn unig ar yr awyr oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Fodd bynnag, roeddent wedi adrodd bod derbyniad boddhaol yn cael ei gyflawni mewn parc busnes ar bŵer o 50 miliwat (mW). Mae hyn yn

dangos bod lefelau pŵer is fel y rhain yn debygol o fod yn addas ar gyfer sawl math o amgylcheddau 'tymheredd isel'.

A2.11 Mae'r adborth gan y treialwyr yn dangos bod y lefelau pŵer presennol yn cyflawni darpariaeth foddhaol yn gyffredinol. Mae hyn yn rhoi hyder i ni fod ein lefelau pŵer arfaethedig ar gyfer trwyddedu amleddau darlledu cyfyngedig (300 miliwat i 1 wat fel arfer, gydag uchafswm pŵer o 2 wat) yn briodol.

A2.12 Ym mis Mawrth 2022, mae'r treialon wedi bod yn rhedeg am chwe, ac mae'n rhaid i dreialwyr roi gwybod i ni am unrhyw ymyriant maent wedi'i ddioddef. Nid ydym wedi cael adroddiadau am ymyriant i wasanaethau'r treial, na'r treialon sy'n achosi ymyriant i wasanaethau radio eraill.

## Sylwadau pellach

A2.13 Ar ôl cael adborth ar y ddarpariaeth a gyflawnwyd gan y gwasanaethau a dreialwyd, rydyn ni wedi diwygio ein dull darpariaeth cyfyngedig i symleiddio'r dull a ddefnyddiwn i ddewis pŵer i RSLs. Yn gyffredinol, rydyn ni'n disgwyl y bydd 300mW yn ddigon ar gyfer RSLs sy'n gwasanaethu ardaloedd sydd heb eu datblygu'n ddwys neu sydd eisiau darpariaeth yn yr awyr agored yn bennaf. Ar gyfer adeiladau mawr fel ysbytai, rydyn ni'n disgwyl dyrannu 1W fel arfer, a hyd at 2W os oes angen.

A2.14 Mae un o'r treialon yn gwasanaethu campws prifysgol mawr, ac nid oedd ei drosglwyddydd yn gallu gwasanaethu holl safle'r campws. Mae hyn yn bennaf oherwydd maint a thopograffeg y safle, a lleoliad y trosglwyddydd. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â'n gwaith modelu technegol ein hunain a oedd yn rhagweld y byddai hyn yn digwydd, ac mae'n dangos rhai o gyfyngiadau ymarferol RSLs pŵer isel.

A2.15 O ystyried natur dros dro y treial, nid oedd rhai o'r rheini a gymerodd ran yn y treial yn gallu ymrwymo'r adnoddau angenrheidiol i optimeiddio systemau eu trosglwyddydd yn llawn – yn benodol, gallen nhw fod wedi dewis lleoliadau mwy ffafrio ar gyfer gosod systemau erial mewn rhai achosion. Mae'r cyfyngiadau hyn ar adnoddau yn debygol o fod yn llai o broblem mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn dreialon, lle mae'r drwydded yn rhoi sicrwydd tymor hwy i wasanaethau.

# A3. Newidiadau i drwydded safonol gwasanaeth cyfyngedig

A3.1 O dan adran 3(4)(b) o BA90, gall Ofcom newid amodau trwyddedau, a chynnwys amodau newydd, drwy eu hamrywio, ar yr amod bod y rhai sy'n dal trwyddedau wedi cael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau am y newidiadau arfaethedig. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n dal trwyddedau gwasanaethau cyfyngedig presennol a phartïon eraill â diddordeb i wneud hynny.

A3.2 Fel y nodir yn adran tri rydyn ni'n bwriadu gwneud newidiadau i'r trwyddedau rydyn ni'n eu rhoi ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig yn ail hanner eleni, ac eithrio ar gyfer gwasanaethau ADRSL. Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r drwydded WTA rydyn ni'n ei rhoi i wasanaethau cyfyngedig.

A3.3 Nid yw'r newidiadau rydym yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio ar y templed o drwydded ADSRSL, ac mae ar gael ar wefan Ofcom.

A3.4 Mae'r drwydded gwasanaeth cyfyngedig arfaethedig ar ffurf safonol y Ddeddf Darlledu i'w gweld yn llawn ar ein gwefan. Rydyn ni'n rhoi manylion y prif newidiadau isod.

### Darparu gwasanaeth cyfyngedig gan y Trwyddedai

A3.5 Mae'r drwydded SRSL a LRSL presennol yn nodi:

*"Amod 2(1) Bydd y Trwyddedai'n darparu'r Gwasanaeth Trwyddedig a nodir yn yr Atodiad ar gyfer cyfnod y drwydded."*

A3.6 Rydym yn cynnig disodli'r geiriad hwn â:

*"Amod 2(1) Mae'r Trwyddedai wedi'i awdurdodi drwy hyn i ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig a nodir yn yr Atodiad ar gyfer cyfnod y drwydded."*

A3.7 Mae'r drwydded LRSL bresennol yn nodi:

*"Amod 2(2) Rhaid i'r rhaglenni, a gymerir dros unrhyw gyfnod o dair awr yn olynol, fod yn berthnasol yn bennaf i'r sefydliad cynnal."*

A3.8 Rydym yn cynnig disodli'r geiriad hwn â:

*"Amod 2(2) I'r graddau y rhoddir y gwasanaeth trwyddedig i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall, rhaid i'r rhaglenni, a gymerir dros gyfnod o dair awr yn olynol, fod yn berthnasol yn bennaf i'r sefydliad cynnal."*

### Cwynion Safonau

A3.9 Mae'r drwydded LRSL bresennol yn nodi:

*"Amod 18(2) Bydd y Trwyddedai yn cadw cofnod ysgrifenedigam gyfnod o 12 mis o unrhyw gwynion y cyfeirir atynt yn Amod 18 (1) uchod ac o unrhyw ymateb a roddir gan y*

*Trwyddedai mewn perthynas ag unrhyw gŵyn o'r fath a bydd yn sicrhau bod cofnod o'r fath ar gael i Ofcom ar unrhyw adegau sy'n rhesymol i Ofcom ofyn amdanynt."*

A3.10 Rydym yn cynnig disodli'r geiriad hwn â:

*"Amod 18(2) I'r graddau y caiff y gwasanaeth trwyddedig ei ganiatáu i wasanaethu sefydliad neu leoliad diffiniedig arall, bydd y Trwyddedai yn cadw cofnod ysgrifenedig am gyfnod o 12 mis o unrhyw gwynion y cyfeirir atynt yn Amod 18 (1) uchod ac o unrhyw ymateb a roddir gan y Trwyddedai mewn perthynas ag unrhyw gŵyn o'r fath, a bydd yn sicrhau bod unrhyw gofnod o'r fath ar gael i Ofcom ar unrhyw adeg sy'n rhesymol i Ofcom ofyn amdano."*

## Ildio

A3.11 Mae'r drwydded SRSL bresennol yn nodi:

*"Amod 23 Gall y Trwyddedai ildio'r Drwydded drwy gyflwyno hysbysiad i Ofcom a fydd yn dod i rym naill ai ar adeg cyflwyno'r drwydded neu ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad."*

A3.12 Nid yw'r amod hwn yn y drwydded RSL bresennol. Ar gyfer y drwydded gwasanaeth cyfyngedig newydd arfaethedig, rydyn ni'n cynnig cynnwys yr amod hwn.

## Cyfle cyfartal a hyfforddiant

A3.13 Mae'r drwydded LRSL bresennol yn nodi:

"*Amod 23*

*(1) Bydd y Trwyddedai'n gwneud trefniadau ac yn eu hadolygu o bryd i'w gilydd ar gyfer y canlynol:*

*(a) hyrwyddo, mewn perthynas â chyflogaeth gyda'r Trwyddedai:*

*(i) cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod a rhwng pobl o wahanol grwpiau hil; a*

*(ii) cydraddoli cyfleoedd ar gyfer pobl anabl; a*

*(b) hyfforddi ac ailhyfforddi unigolion y maent yn eu cyflogi i ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig, neu mewn cysylltiad â hynny, neu wneud rhaglenni i'w cynnwys yn y Gwasanaeth Trwyddedig.*

*(2) Bydd y Trwyddedai'n cymryd camau priodol i sicrhau bod y rheini y mae'r trefniadau i'w gwneud yn unol ag Amod 23 (1) yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys cyhoeddi'r trefniadau yn y modd sy'n ofynnol gan Ofcom.*

*(3) Yn benodol (ond heb gyfyngu ar gyffredinolrwydd yr uchod) bydd y Trwyddedai o bryd i'w gilydd (ac o leiaf bob blwyddyn) yn cyhoeddi, yn y modd sy'n briodol yn ei farn ef, ei sylwadau ar weithrediad ac effeithiolrwydd cyfredol y trefniadau sy'n ofynnol yn rhinwedd yr Amod hwn.*

(4) *Wrth wneud ac adolygu'r trefniadau a wneir yn unol ag Amod 23 (1), bydd y Trwyddedai'n ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.*

(5) *Bydd yr Amod hwn 23 yn berthnasol os yw gofynion Adrannau 337 (7) ac (8) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau wedi'u bodloni yn achos y Gwasanaeth Trwyddedig.*

(6) *Bydd Ofcom yn trin rhwymedigaethau'r Trwyddedai o dan Amodau 23 (1) i (5) uchod fel rhai a gyflawnir pan fydd aelod o grŵp o gwmnïau y mae'r Trwyddedai'n perthyn iddynt wedi cyflawni'r rhwymedigaethau hynny mewn perthynas â chyflogaeth gyda'r Trwyddedai."*

A3.14 Nid yw'r amod hwn yn y drwydded SRSL bresennol. Ar gyfer y drwydded gwasanaeth cyfyngedig newydd arfaethedig, rydyn ni'n cynnig cynnwys yr amod hwn.

A3.15 Nodwn fod yr amod ond yn berthnasol os yw gofynion Adrannau 337 (7) ac (8) o'r CA03 wedi'u bodloni yn achos y Gwasanaeth Trwyddedig. Mae'r rhain yn nodi mai'r trothwy cyn i Adran 337 ddod yn berthnasol i wasanaeth yw os yw'r sawl sy'n dal y drwydded yn cyflogi, neu'n debygol o gyflogi, mwy nag 20 o bobl mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaeth trwyddedig ac os yw'r drwydded yn awdurdodi'r gwasanaeth i ddarlledu am dros 31 diwrnod. Nid yw'n debygol y bydd y gofynion hyn yn cael eu bodloni gan SRSLs.

# A4. Diwygiadau arfaethedig i'n ffurflenni cais a'n nodiadau cyfarwyddyd

A4.1 Mae'r ffurflen gais arfaethedig i'w gweld ar y dudalen we ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, ac os caiff y newidiadau arfaethedig eu mabwysiadu, byddai'n disodli'r ffurflen gais SRSL bresennol a'r ffurflen gais LRSL. Er mwyn bod yn gyflawn, rydyn ni hefyd yn diweddaru ein ffurflen gais ADS-RSL i'w gwneud yn gyson â'r ffurflen gais newydd arfaethedig. Mae'r ffurflen gais hon am ADS-RSL hefyd ar gael ar y dudalen we ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

A4.2 Mae'r nodiadau cyfarwyddyd newydd arfaethedig hefyd ar gael, ac os caiff y newidiadau arfaethedig eu mabwysiadu, byddai'n disodli'r nodiadau canllaw SRSL bresennol a'r nodiadau canllaw ADS-RSL. Er mwyn bod yn gyflawn, rydym yn symud nodiadau cyfarwyddyd ADS-RSL i ddogfen ar wahân, sydd hefyd ar gael ar y dudalen we ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

# A5. Bwriad i adolygu Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Ffioedd Trwyddedau)

A5.1 Mae Atodlen 2 y Rheoliadau ar hyn o bryd yn datgan mai ffioedd trwyddedau'r Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr ar gyfer gwasanaethau radio cyfyngedig yw:

| Dosbarth y drwydded | Symiau amrywiol | Cyfnod talu rhagnodedig |
|---|---|---|
| Trosglwyddo Gwasanaethau Radio Cyfyngedig (Dosbarth A—Perydlu'n Rhydd) | (a) £15 y dydd am bob amledd band darlledu ton ganolig.<br>(b) £25 y dydd lle nad yw'r erp yn fwy nag 1 Watt ar gyfer pob amledd band darlledu VHF.<br>(c) £40 y dydd lle mae'r erp yn fwy nag 1 Watt am bob amledd band darlledu VHF. | |
| Trosglwyddo Gwasanaethau Radio Cyfyngedig (Dosbarth A—Cebl Perydlu) | £100 | 12 mis |
| Trosglwyddo Gwasanaethau Radio Cyfyngedig (Dosbarth C—Pelydru'n Rhydd ar Bŵer Isel Iawn) | £100 | 12 mis |

A5.2 Os caiff y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn eu mabwysiadu, byddem yn ymgynghori ar ddisodli'r darpariaethau gwasanaeth cyfyngedig hyn yn y Rheoliadau presennol gyda:

| Dosbarth y drwydded | Symiau amrywiol |
|---|---|
| Gwasanaeth Cyfyngedig | (a) £40 y dydd am wasanaeth sy'n trosglwyddo hyd at ac yn cynnwys 2 Wat, hyd at derfyn uchaf blynyddol o £240<br>(b) £40 y dydd am wasanaeth sy'n trosglwyddo dros 2 Wat, hyd at derfyn uchaf blynyddol o £1,200 |

# A6. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A6.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a’ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi’u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 9 Mai 2018.

A6.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-andstatements/category-2/restricted-services-proposals-to-increase-available-spectrum-andsimplify-licensing Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb. Mae croeso i chi ymateb yn Gymraeg ac ni fyddwn yn trin ymatebion Cymraeg yn llai ffafriol nag ymatebion Saesneg.

A6.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw’n cynnwys siartiau, tablau neu ddata ategol arall, a fyddech chi cystal â’i anfon dros e-bost i rsls@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â’r ddalen gyflwyno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig y mae’r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn gweithio ar ôl 9 Mai 2022.

A6.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i’r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi’i farcio arnynt:

RSL Review
Broadcast Licensing Team
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A6.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain.  I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi’n defnyddio’r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai’r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma’r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
- Gwnewch fideo ohonoch chi’n defnyddio’r iaith arwyddion i gyfleu’ch ymateb, a’i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A6.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A6.7 Nid oes angen copi papur o’ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio’r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A6.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydyn ni hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A6.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru yn Atodiad 9. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A6.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â thîm Trwyddedau Darlledu Ofcom drwy adael neges arar 020 7981 3002, neu dros yr e-bost i rsls@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A6.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar wefan Ofcom cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A6.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid inni olygu'ch ymateb.

A6.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A6.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A6.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn Haf 2022.

A6.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A6.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 7.

A6.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydyn ni'n arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut y gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A6.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A7. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A7.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A7.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A7.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A7.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A7.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom fydd y prif unigolyn y dylid cysylltu ag ef os oes gennych farn am y modd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A7.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A7.7 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A8. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

Dim ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

______________________________________________________________________________________

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu'ch sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol na fydd yn datgelu'r wybodaeth benodol nac yn datgelu pwy ydych chi)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os darperir copi papur)

# A9. Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cwestiynau yn ôl adran

### Adran 2: Darparu mwy o amleddau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig

Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion Ofcom i ddarparu mwy o amleddau ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig?

### Adran 3: Cynigion i newid ein dull o drwyddedu gwasanaethau cyfyngedig

Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar drwydded Deddf Darlledu safonol gwasanaeth cyfyngedig arfaethedig Ofcom?

Cwestiwn 3: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i roi trwydded gwasanaeth cyfyngedig i'r rheini sy'n dal trwyddedau SRSL presennol am gyfnod estynedig ar amledd newydd ar ddiwedd cyfnod eu trwydded bresennol, os byddant yn gwneud cais am drwydded newydd?

Cwestiwn 4: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i roi amleddau darpariaeth gyfyngedig (os oes rhai ar gael) i'r rheini sy'n dal trwyddedau RSL presennol ar ddiwedd cyfnod eu trwydded bresennol, os byddant yn gwneud cais i adnewyddu eu trwydded.

### Adran 4: Cynigion i newid y broses ymgeisio am drwydded a'r cyfarwyddyd cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig

Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newidiadau hyn i'n proses ymgeisio, fel y nodir yn y canllawiau diwygiedig yn Atodiad 4?

### Adran 5: ADSRSLs a gwasanaethau ystod fer sy'n datblygu

Cwestiwn 6: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig Ofcom i ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros DCMS osod Offeryn Statudol gerbron y Senedd a fyddai'n darparu eithriad a fyddai'n golygu na fyddai'n rhaid i rai gwasanaethau ddal trwydded Deddf Darlledu?

### Adran 6: Cynigion i newid y drefn ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig

Cwestiwn 7: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ffioedd arfaethedig Ofcom ar gyfer gwasanaethau cyfyngedig?